
# heddwch

gwanwyn 2004
rhif 31
am ddim (neu gyfraniad)

## cylchgrawn CND Cymru




# can o fwydod ?

**Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw**

# heddwch

**yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru (CND Cymru).**

**Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.**



**Croeso i sylwadau, llythyron a erthyglau**

**Golygydd:**
Jill Stallard
(01550) 750 260

**Cyfiethydd:**
Sian Edwards
sian@derwen.demon.co.uk

**Cysodi:**
Redkite Print (01591) 610 844
redkite@onyxnet.co.uk

**Pacio** gan wirfoddolwyr yng Ngaerdydd - i ymuno â'r hapus dyrfa hon, un prynhawn bob rhyw 2-3 mis, cysyllter â Brian Jones (01792) 830 330.

# Ymlaen a CND Cymru !

Mae hi'n bron i 35 mlynedd ers i'r Cytundeb Gwrth-Ymlediad (NPT) ddod i rym ym 1970, ac mae 189 o wladwriaethau bellach wedi cytuno i'w fwriad o ddiddymu arfau niwclear. Er gwaethaf hyn rydym mewn sefyllfa ar hyn o bryd lle mae'r Unol Daleithiau yn fodlon lawnsio rhag-ymosodiad gan ddefnyddio arfau niwclear, Prydain yn gwrthod diystyru defnyddio arfau niwclaer yn Irac, mae ymchwil a datblygiad a phrofi arfau niwclear yn parhau, mae arfau niwclear o hyd yn cael eu hystyried fel rhan annatod o gynllunio NATO a lle mae cenhedlaeth newydd o arfau niwclear maes y gad yn cael eu datblygu a niwcliareiddio'r gofod ar ei ffordd.



Caerdydd Chwefror 2004: Ymateb i Hutton ! - ymchwil cyhoeddus

Yr Ebrill hon cynhelir y Pwyllgor Paratoi olaf ar yr NPT cyn y Gynhadledd Adolygu nesaf yn 2005. Yn y Gynhadledd Adolygu diwethaf yn 2000 cytunwyd ar gynllun 13 cam i weithredu'r NPT a cadarnhaodd wladwriaethau ac arfau niwclear eu ymrwymiad llwyr i ddileu eu arfau. Y Pwyllgor yn Efrog Newydd yw'r cyfle olaf i weithredu'r cynllun cyn yr Adolygiad nesaf. Rhaid i ni gymryd safiad yn awr, yn enwedig ar Erthygl VI ar ddiarfogi, neu bydd yr NPT mewn perygl o ddod yn ddogfen dibwrpas.

Mae Meiri Hiroshima a Nagasaki yn gwneud gwaith arloesol gyda'u cynllun 'Meiri dros Heddwch' sydd yn cael dinasoedd ar draws y byd i gydweithio a datgan ei hunain yn ardaloedd di-arfau niwclear. Rhaid i ni yn CND Cymru ymgyrchu yn gryfach nac erioed o'r blaen i drosglwyddo rhagrith gwag yn realiti gwleidyddol pendant.

Datganodd y Llys Cyfiawnder Rhyngywladol ym 1996 bod defnydd neu hyd yn oed bygwth defnyddio arfau niwclear yn anghyfreithlon. Gwna hyn gryfhau'r NPT yn dasg hyd yn oed fwy brys. Rydym ni'n son am Arfau Torfol Dinistriol (WMD) go iawn yma, a'r cyfle i'w dinistrio yn y ffordd mwyaf effeithiol - trwy sicrhau gweithredu cytundebau rhyngwladol.

Mae rhagrith llywodraethau'r UDA a Phrydain ynglyn a perchnogaeth WMD yn rhyfeddol.

**Jill Evans ASE Cadeirydd CND Cymru**


# Un fenyw, un stryd yng Nghymru

Tra bod cannoedd o brotestwyr ar eu ffordd o Gymru i brotestio yn erbyn ymweliad George Bush â Llundain ym mis Tachwedd, cynhaliwyd protest rymus un-fenyw ar strydoedd tref farchnad wledig Llanandras, Powys.

Defnyddiodd Betty Cotton ffigurau o dudalen flaen rhifyn y Gaeaf o 'heddwch' yn rhestru arfogaethau niwclear y byd. Arddangosodd y rhain ar bosteri y tu allan i stafelloedd Cynnull y dref. Galwai posteri eraill Blair a Bush yn droseddwyr rhyfel a galw sylw at y plant Iraqi a laddwyd gan luoedd arfog yr UD a Phrydain, a'r sancsiynau yn erbyn Irac.

Cafodd Betty, a safodd gyda'i harddangosfa i siarad â phobl yn mynd heibio, lawer iawn o gefnogaeth gan yrwyr a cherddwyr. Fel llawer o grwpiau ac unigolion ledled Cymru, teimlai er na allai gymryd rhan yn y gwrthdystiad yn Llundain, ei bod hi'n bwysig llefaru'n lleol, gan ddweud wrth 'heddwch', "Hyd yn oed yn y trefi bach yma, mae'n bwysig bod â phresenoldeb yno."

Cafodd llawer o brotestiadau ledled Cymru lawer o sylw mewn papurau lleol a chenedlaethol ac ar orsafoedd radio a theledu. Roedd gweithred Betty yn pwysleisio unwaith eto sut mae "llefaru'r gwir wrth y puer" yr un mor bwysig ar bob lefel - yn ein cartrefi, yn y gwaith, yn ein cymunedau, ac yn y niferoedd anferth o wrthdystiadau torfol ym mhedwar ban y byd.



## Diwrnod Byd-eang o Weithredu dros Heddwch a Chyfiawnder

# Gorymdeithiwch yn Aberstwyth ym mis Mawrth

*(Na, Tony, dydyn ni ddim yn mynd i ddiflannu!)*

Mawrth 20[fed] yw penblwydd cyntaf y cyrch ar Irac. Bydd gwrthdystiadau ym mhedwar ban y byd i nodi'r dyddiad. Bydd grwpiau yn Ewrop ac Asia yn cymryd rhan; yn UDA, bydd protestiadau hefyd yn cynnwys 'y rhyfel gartref;, y Ddeddf 'Patriot', carcharu torfol, a'r angen am ddargyfeirio arian oddi wrth wariant milwrol at anghenion cartref hollbwysig.

Trefnwyd diwrnod cenedlaethol o weithredu yn Aberystwyth. Fel rhan o'r ffocws ar Hawliau Dynol a'r Cyfraith Ryngwladol, bydd y siaradwyr yn cynnwys Azwat Begg, tad un o garcharorion Bae Guantánamo, a Corin Redgrave.

Yn rhesymegol, dylai fod mwy o bobl ar y strydoedd nag ar y 15fed o Chwefror llynedd. Mae'r rhesymeg yn syml. Y llynedd, roeddem yn drwgdybio'r rhesymau a roddwyd am ymosod ar Irac; erbyn hyn, rydym yn *gwybod* fod George Bush a Tony Blair wedi dweud celwydd wrthym.

Y llynedd, doedden ni ddim yn sicr os oedd arfau dinistr torfol gan Irac. Roeddem am i Hans Blix gael mwy o amser. Mae'r rheswm na allai Bush a Blair ildio i'r consenswm rhyngwladol hwnnw bellach yn glir ac yn ddiymwad. Doedd dim arfau dinistr torfol.

Llynedd, pardduwyd y miliynau a orymdeithiodd, gan ddweud eu bod fel pe baent yn amddiffyn unben erchyll. Yn awr mae Saddam wedi mynd. Ac eto, mae Irac yn dal wedi ei meddiannu ac mae'r frwydr yn erbyn hyn yn parhau, gyda mwyfwy o bobl yn marw. Ni all agenda gorfforaethol yr UD ymdopi â democratiaeth boblogaidd go iawn.

Gallwn ni yn y mudiad heddwch a chyfiawnder rhyngwladol gyfleu'r neges honno, a bydd mwy o bobl allan ar y strydoedd ar Fawrth 20fed. Er gymaint mae'n gwylltio Bush a Blair, mae'r mater yn gwrthod marw'n dawel. Ym Mhrydain, os bydd ein protest yn arwain at ymgyrch dros ymchwiliad cyhoeddus llawn i benderfyniad Blair i fynd â Phrydain i ryfel sydd wedi achosi cymaint o angau a dioddefaint, yna fe fyddwn yn wir wedi sicrhau buddugoliaeth pobl dros wleidyddion, a buddugoliaeth i wirionedd a heddwch.

**Kelvin Mason**

heddweithredu:

**Bydd digwyddiadau mewn llawer dinas ym mhedwar ban y byd ar Fawrth 20fed.**

**Cyfle gwych i ddathlu'r gwanwyn, cwrdd â ffrindiau, cael y wybodaeth ddiweddaraf, a meddiannu'r strydoedd eto. Rhowch y dyddiad yn eich dyddiadur – canslwch bopeth arall i FOD YNO! Manylion isod.**

---

Dydd Byd-eang o Weithredu dros Heddwch

Mawrth 20[fed] 2004

# Brwydrwch dros heddwch!

## Terfyn ar Oresgyniad Irac!

Aberystwyth

## Rali Genedlaethol

Cynnull am 10.30: Coed Lan y Parc (cyferbyn ag Orsaf yr Heddlu)

Gorymdaith at y Castell

Siaradwyr 12.30pm-1.00pm

## Trafodaeth cyhoeddus: 'Heddwch a Chynnydd'

2.30pm-4.00pm Hen Goleg, Stryd y Brenin

Siaradwyr:

Jill Evans ASE: Cadeirydd CND Cymru

Azmat Begg: Tad carcharor Guantánamo

Corin Redgrave: Sylfaenydd Comisiwn Hawliau Dynol Guantánamo

Eleanor White: Amnest Cymru

Cysyllter ag:

CND Cymru : (01550) 750 260 info@cndcymru.org

Linda Rogers (ar ran Heddwch a Chynnydd): (01248) 490 715

Kelvin Mason (Rhwydwaith Heddwch Aberystwyth): (01970) 610185

---

## Costau rhyfel yn Irac

**£93 miliwn** - cost taflegrau a ffrwydron a ddefnyddiwyd yn Irac yn 2003[1]

**£1.2 biliwn** - cost ' gofynion gweithgareddau milwrol brys''[1]

**£5.5 biliwn** - cost y rhyfel yn Irac ac Afghanistan[2]

**£3 biliwn** - costau o gronfeydd wrth gefn y Trysorlys i'w ddefnyddio gan y fyddin yn Irac[2]

**Mwy na 10,000** – sifiliaid a laddwyd yn Irac

**Mwy nag 20,000** – sifiliaid y cofnodwyd eu bod wedi eu hanafu yn Irac

**500** - **milwyr** y 'gynghrair' a laddwyd

**2,000** – **milwyr** y 'gynghrair' a anafwyd

**6,000** – **milwyr** y 'gynghrair' a ddanfonwyd adre am resymau iechyd neu seicolegol

**hyd at 45,000 – milwyr Iraci a laddwyd**

**hyd at 100,000 – milwyr Iraci** a anafwyd

**Cyn 1990**, safon byw Irac oedd yr uchaf o blith cenhedloedd incwm canol y Byd

**Heddiw:**

Disgwyliad bywyd: 59 i ddynion, 63 i fenywod.

Marwolaethae plant dan 5: 133 y 1,000, neu un o bob wyth.

Marwolaethau mamau'n geni plant: 294 marwolaeth am bob 100,000 genedigaeth

Un plentyn o bob pedwar yn dioddef diffyg maeth cronig

Chwarter y plant yn cael eu geni yn llai na'r pwysau normal

Bu gostyngiad sylweddol yn y ffigurau hyn o'i gymharu â rhai 1990.

**Ffynonellau:**

[1] **Y Weinyddiaeth Amddiffyn**

[2] **Datganiad gan Gordon Brown**

## Y Cytundeb Atal Ymlediad Niwclear

# Ymrwymiad Pendant



**Y Cytundeb Atal Ymlediad Arfau Niwclear (y CAY) yw'r unig ymrwymiad pendant i ddiarfogi a wnaed gan y Gwladwriaethau Arfau-Niwclear. Mae'r Cytundeb wedi bod yn agored i'w lofnodi ers 1968 ac fe'i ymestynwyd am gyfnod amhenodol ym 1995. Mae 188 o wledydd wedi arwyddo'r CAY, yn cynnwys y pum Gwladwriaeth Arfau-Niwclear.**

Bob pum mlynedd, bydd gwledydd y CAY yn cyfarfod am Gynhadledd Adolygu. Cynhelir y nesaf ym mis Mai 2005. Yn y blynyddoedd rhwng y Cynadleddau, cynhelir Cyfarfodydd Pwyllgor Paratoadol (PrepComs). Bydd y nesaf i'r rhain yng ngwanwyn 2004.

### "Diarfogi cyffredinol a llwyr"

Cytundeb diarfogi niwclear yw'r CAY, yn ei hanfod. Mae Erthygl VI yn dweud fod yn rhaid i'r rhai sydd wedi arwyddo *"fynd ati i negydu yn ddidwyll ar fesurau effeithiol yn ymwneud ag atal y ras arfau yn fuan, ac ar ddiarfogi niwclear, ac ar gytundeb ar ddiarfogi cyffredinol a llwyr o dan reolaeth ryngwladol gaeth ac effeithiol."* Mae'r Llys Cyfiawnder Rhyngwladol wedi dweud yn ddiamwys fod diarfogi niwclear byd-eang yn ddyletswydd cyfreithiol ar bob gwladwraieth sydd wedi arwyddo.

Mae arnom angen yr ewyllys wleidyddol i sicrhau byd a fydd yn rhydd o arfau niwclear. Cynigiodd chweched Cynhadledd Adolygu'r CAY obaith yn y cyfeiriad hwnnw. Roedd y *Ddogfen Derfynol*, y cytunwyd arni gan holl wledydd y Cytundeb, yn cynnwys *"addewid diamwys gan y Gwladwriaeth Arfau-Niwclear i ddileu eu harfogaethau niwclear yn llwyr gan arwain at ddiarfogi niwclear ..."* ynghyd â Rhaglen Weithredu 13-cam ar gyfer y pum mlynedd nesaf i wireddu hyn.

### Dau-wynebog

Aeth bron bedair blynedd heibio ers y Gynhadledd Adolygu ddiwethaf, a phrin yw'r arwyddion fod y Gwladwriaethathau Arfau-Niwclear yn ymdrin â'r Rhaglen Weithredu fel mater brys. Er gwaethaf gostyngiad yn eu harfogaethau niwuclear i bron hanner eu lefelau yn ystod y Rhyfel Oer, mae'r arfogaethau llai yma wedi cael eu huwchraddio ac maent yn rhan o gynlluniau ymladd-rhyfel ar ffurf "mini niwciau".

Mae cynlluniau amddiffyn yn rhagdybio fod dibyniaeth ar arfau niwclear yn gyflwr normal ar gyfer y dyfodol amhenodol yn hytrach na gwyriad y dylid rhoi terfyn arno. Mae hyn yn atgyfnerthu'r syniad fod arfau niwclear yn elfen hanfodol mewn diogelwch yn hytrach na ffynhonnell anniogelwch, amheuaeth ac ofn. Mae gwledydd eraill, fel India a Pakistan, wedi darllen y neges a'i deall. Mae Gogledd Korea yn gweld ei hymffrost niwclear fel arf bargeinio defnyddiol, sy'n ei gwneud hi'n gwbl amlwg beth sy'n ymhlyg ym mholisïau'r Gwladwraethau Arfau-Niwclear.

Mae pobloedd y byd a'r mwyafrif helaeth o lywodraethau yn gwrthod arfau niwclear ac yn cefnogi eu dileu rhag blaen. Mae'r misoedd tan y Gynhadledd Adolygu'r CAY nesaf yn gyfle i wireddu'r awydd hwn.

### Llygedyn o gyfle

Mae gan Brydain ran unigryw i'w chwarae. Mae'n perthyn i fwy o sefydliadau rhyngwladol na'r un wlad arall, gellid tybio – y CU, yr UE, NATO, a'r Gymanwlad, i enwi ond rhai ohonynt. Mae'n Wladwriaeth Arfau Niwclear â sedd barhaol ar Gyngor Diogelwch y CU ac mae'n honni fod ganddi "berthynas arbennig" gydag UDA. Er bod llawer o hyn yn adlewyrchu cysgodion yr ymerodraeth, mae hefyd yn gyfle unigryw i arwain y ffordd gyda diarfogi niwclear.

### Lleihau'r peryglon

Un maes lle gallai Prydain gynnig arweiniad go iawn yw o dan Baragraff 6 o'r Rhaglen Weithredu sy'n mynnu y dylid cymhwyso "egwyddor anwrthdroadwyedd" i ddiarfogi niwclear. Rhaid cyrraedd pwynt di-droi'n ôl, rhyw "wal ddiadlam". Dydy'r Llywodraeth Brydeinig ddim wedi gwneud dim byd anwrthdroadwy hyd yn hyn. Dydy Trident ddim yn barod i danio ar yr esgus lleiaf ar hyn o bryd – ond gallai hynny newid mewn eiliadau. Cam gwirioneddol argyhoeddiadol tuag at "roi llai o swyddogaeth i arfau niwclear mewn polisïau diogelwch" fyddai cadw llongau tanfor Trident wrth angor ac atal eu patrolau 'braw-ataliol' bondigrybwyll pryfoclyd ac anghyfreithlon. Dylid hefyd ddangos, mewn modd y gellir ei wirio, fod y 196 o ergydion 100 kiloton (bob un â phuer dinistriol wyth bom Hiroshima) yn cael eu storio ar wahân i'w taflegrau. Byddai hyn hefyd yn lleihau'r perygl o lansio taflegryn yn ddamweiniol. Gallai mesurau blaengar eraill gynnwys ymrwymo i beidio byth â defnyddio arfau niwclear gyntaf, a cheisio cytundeb gyda'n partneriaid Ewropeaidd i greu Ewrop ddi-niwclear.

At hynny, mae'r llywodraeth yn wynebu penderfyniad pwysig iawn cyn bo hir – p'run ai i osod system newydd yn lle Trident pan ddaw honno i derfyn ei hoes. Mae'n cymryd rhyw ugain mlynedd rhwng penderfynu ar fater mor fawr â hwn tan y daw system newydd yn weithredol. Mae'r dewis yn dal i fod yn agored. Dylem felly geisio sicrhau addewid gan y llywodraeth na fydd yn gosod dim byd yn lle Trident.

**George Farebrother, Project Llys y Byd y DU**

*Mae'r erthygl hon yn ddyledus i ragarweiniad llyfryn a gynhyrchwyd ar gyfer PrepCom 2004, Ebrill-9 Mai 2003, gan Broject "Reaching Critical Will" Cynghrair Ryngwladol y Menywod dros Heddwch a Rhyddid,* . http://www.reachingcriticalwill.org/

heddweithredu:

**Er mwyn ein plant, a phlant ein plant, ni ddylai rhyfel a bygythion niwclear fod ar agenda unrhyw Lywodraeth, am resymau iechyd, amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.**

**Mae Jill Evans ASE, Cadeirydd CND Cymru, wedi llwyddo i ofyn dau gwestiwn, ar bwnc 'Diarfogi Niwclear: Cynhadledd Adolygu'r Cytundeb Atal Ymlediad yn 2005 – Paratoad yr UE o'r trydydd Prepcom CAY (Efrog Newydd 26 Ebrill – 7 Mai 2004)' yn y Senedd Ewropeaidd. Mwy o wybodaeth a chopïau o gwestiynau gan CND Cymru.**

# Sut allwch chi helpu i atal ymlediad niwclear

## 1.

Cwblhewch y *Datganiad o Blaid Byd Di-niwclear* sydd **gyda'r rhifyn yma o 'heddwch'.** Bydd y rhain yn cael eu casglu gan ddinasyddion o bedwar ban i'w harddangos yng Nghynhadledd Adolygu'r Cytundeb Atal Ymlediad Niwclear yn Efrog Newydd yn 2005.

Mae Project Llys y Byd y DU yn ei ddisgrifio ei hun fel *Y Cydwybod Cyhoeddus ar Waith.* Ymddangosodd y syniad hwn gyntaf yng *Nghytundeb yr Hâg 1907*, a chadarnhawyd ei statws fel ffynhonnell cyfreithiol gan y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol ym 1996. Mae'r Cydwybod Cyhoeddus yn adlewyrchu ein hymdeimlad naturiol o ddaioni a drygioni. Mae Cyfraith Ryngwladol yn datblygu drwy ddefod ac arfer yn ogystal â thrwy gytundebau, ac mae hyn yn rhoi troedle pwysig i'r Cydwybod Cyhoeddus.

Dydy'r Datganiadau Cydwybod Cyhoeddus ddim yn dweud fod arfau niwclear yn anghyfreithlon, Maent yn dweud eu bod yn ddrwg ac felly dylid eu gwneud yn anghyfreithlon. Mae'r Datganiadau o blaid Byd Di-niwclear yn dweud fod arfau niwclear yn bradychu'r gwerthoedd rydym yn eu coleddu ac yn mynnu y dylid gwireddu'r addewid o fyd di-niwclear.

Felly nid deisebau neu ddulliau gwleidyddol syml mo'r Datganiadau. Ymrwymiadau personol ydynt, â'r bwriad yw y byddant yn cyfrannu tuag at ddatblygu cyfraith ryngwladol.

Gellir cael mwy o ddatganiadau ar gyfer unigolion neu grwpiau gan George Farebrother, Ysgrifennydd, World Court Project UK, 67 Summerheath Rd., Hailsham, Sussex BN 27 3DR Lloegr (01323) 844 269 ebost: geowcpuk@gn.apc.org) www.gn.apc.org/wcp

## 2.

**Chwaraewch ran yn Lobi Cymdeithas y Cenhedloedd Unedig (CCU) ar yr 16eg o Fawrth** Nod ganolog y Lobi hon yw gosod y CU wrth galon polisi tramor Prydain. Y CU yw conglfaen adeiladu byd mwy goddefgar a chyfiawn. Mae themâu lobi eleni yn cynnwys galw am gamau cliriach tuag at weithredu'r CAY, ynghyd â mwy o atebolrwydd seneddol i'r CU a llais cryfach i'r mwyafrif mewn penderfyniadau byd-eang. Am "Becyn Lobïo" a manylion pellach, cysyllter â : Lobby 2004, UNA Association, 3 Whitehall Court, Llundain SW1A 2EL (020) 7930 2931 ebost: interns@una-uk.org neu, yng Nghymru: Clare Sain Ley Berry (02920) 821 055 una@wcia.org.uk

## 3.

**Sgrifennwch ar eich AS, y Prif Weinidog a/neu Geoffrey Hoon, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn gan ddefnyddio'r wybodaeth yn 'heddwch'.** Galwch am weithredu'r Cytundeb, yn enwedig Erthygl VI sy'n galw ar bob gwladwriaeth sydd wedi arwyddo (sy'n cynnwys y llywodraeth Brydeinig) i "fynd ati i ddiarfogi'n niwclear, dod â'r ras arfau niwclear i ben, ac esgor ar gytundeb ar ddiarfogi cyffredinol a llwyr." Mae cynyddu nifer yr arfau dinistr torfol, yr holl baratoadau at ryfel, yn dargyfeirio sylw oddi wrth y gwaith o blaid gwir ddiogelwch – sicrhau cyfiawnder gwirioneddol, a gweithio i sicrhau fod gan holl gymunedau'r byd ddur glân, tai, addysg a hawliau dynol wedi eu gwarantu **(gweler Cysylltiadau tud. 18).**

## 4.

**Chwaraewch ran yn CND Cymru a/neu gyda grwpiau a mudiadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol** sy'n gweithredu'n uniongyrchol mewn pob math o ffyrdd di-drais (o brotestio i ddiarfogi uniongyrchol dros ben) er mwyn cynnal y gyfraith ryngwladol a galw sylw at ymddygiad troseddol parhaus y llywodraeth Brydeinig wrth iddi ddatblygu arfau niwclear newydd).

### Detholiad bychan o grwpiau gweithredu uniongyrchol perthnasol:

**Trident Ploughshares**: 42-46 Bethel Street, Norwich, Norfolk NR2 1NR (01324) 880 744 ebost: tp2000@gn.apc.org www.tridentploughshares.org

**Ymgyrch Heddwch Menywod Aldermaston**: 157 Lyndhurst Road, Worthing BN11 Sussex, Lloegr (01639) 700 680 info@aldermaston.net www.aldermaston.net

**Gwersyll Heddwch Faslane**: Shandon, Helensburgh, Swydd Dumbarton, Yr Alban G84 8NT (01436) 820 90 faslanepeacecamp@hotmail.com www.faslanepeacecamp.org.uk

**For Mother Earth International:** Maria-Hendrikaplein 5-6, 9000 Gent, Gwlad Belg (+32) 9 242 8752 international@motherearth.org www.motherearth.org

**Y Rhwydwaith Gwrthsafiad Di-drais:** d/o David Polden CND, 162, Holloway Road, Llundain N7 8DQ (020) 7607 2302 ebost: lrcnd@supanet.com www.nvrn.org

### Llyfr

**Depleted Uranium**
***Deadly dangerous and indiscriminate***
**The Full Picture**
Anne Gut a Bruno Vitale
**Darllenwch am:**

- Y troseddau newydd yn erbyn y ddynolaieth
- Tarddiad a defnyddiau Wraniwm Hesb (WH)
- Effeithiau WH ar iechyd a'r amgylchedd
- Gwasgariad WH gan y sefydliad milwrol mewn rhyfeloedd yn erbyn pobl.

**Cyhoeddwyd gan Spokesman ISBN 0 85124685 0 pris: £7.99. Mae** *Depleted Uranium: Deadly dangerous and indiscriminate* ar gael gan siopau llyfrau da a gan CADU, yr Ymgyrch yn Erbyn Wraniwm Hesb, 22a Beswick Street, Ancoats, Manceinion M4 7HS (0161) 237 8293.

## 5.

### Cymru Ddi-niwclear ac Ymlediad Niwclear

Ar achlysur penblwydd y Datganiad ar y 23ain Chwefror 1982 gan bob Cyngor Sir y dylai Cymru fod yn wlad ddi-niwclear, gosodwyd Datganiad o Farn traws-bleidiol ger bron yn y Cynulliad Cenedlaethol. Mae hwn yn croesawu'r datganiad di-niwclear ac yn annog cefnogaeth i'r gynhadledd adolygu a gynhelir cyn hir ar y Cytundeb Atal Ymlediad. Mae Prydain wedi arwyddo'r CAY ond, yn groes i Erthygl VI sy'n mynnu fod pob gwlad sydd wedi arwyddo yn gweithredu mesurau i leihau ei harfogaeth niwclear, mewn gwirionedd mae Prydain wedi cynyddu maint ei harfogaeth niwclear ers i'r cytundeb gael ei gymeradwyo.

Gellir gweld y datganiad o Farn a rhestr o'r ACau sydd wedi arwyddo ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol, sefwww.cymru.gov.uk neu mae copi ar gael oddi wrth CND Cymru.

Gofynnwch i'ch AC i gefnogi'r Datganiad os nad yw eisoes wedi gwneud, ac efallai y carech longyfarch y rhai sydd eisoes wedi arwyddo. Mae'n bwysig i'r Cynulliad gael ei weld yn gweithredu ar faterion sy'n effeithio ar ein bywydau a'n hamgylchedd.

### Blair yn diffinio Prydain fel 'Dihiryn Wladwriaeth'

**Cwestiynau'r Prif Weinidog:**

**Mr. Gummer:** I ofyn i'r Prif Weinidog fel y mae'n diffinio dihyryn wladwriaeth.

**Y Prif Weinidog:** Defnyddir y term hwn fel rheol ddisgrifio gwledydd y credir eu bod wrthi'n achosi ymlediad arfau dinistr torfol a'u cyfarpar tanio, neu rai sy'n cefnogi brawychiaeth ac sy'n cynnal breichiau rhai sy'n cyflawni gweithredoedd braw.

***Hansard 24 Ionawr 2004***

## Palesteina

# Help llaw o Gymru i glustiau Ahmad



Mae Is-gadeirydd CND Cymru, Ray Davies yn eiddgar iawn i helpu bachgen Palestinaidd pum mlwydd oed o'r enw Ahmad, sydd wedi colli ei glyw. Mae Ahmad yn byw yng ngwersyll ffoaduriaid Balata yn Nablus, y mae Ray'n ymweld ag ef yn gyson fel gweithredydd heddwch gyda'r Mudiad Cydgefnogaeth Rhyngwladol (ISM). Mae ISM yn monitro ymosodiadau ar hawliau dynol yn y Tiroedd dan Feddiant, yn hebrwng plant drwy siecbwyntiau ac yn mynd gydag ambiwlansys yn cludo pobl a anafwyd yn y terfysg. Bydd Ray hefyd yn mynd â chyfraniadau a gasglwyd yng Nghymru i'w rhoi i'r cartrefi plant amddifad, clinigau ac ysbytai sydd ag arnynt gymaint o angen adnoddau.

Ar ymweliad yn 2002, gofynnwyd i Ray dreulio dwy noson yng nghartref Ahmad yn Balata, gan gyrraedd yno yn fuan wedi i'r lle gael ei ddinistrio gan filwyr Israel a oedd yn chwilio am ymladdwyr rhyddid Palestinaidd. Dyma Ahmad, oedd yn bedair oed bryd hynny, yn rhuthro i freichiau Ray ac arhosodd gydag ef drwy gydol ei ymweliad. Roedd Ahmad wedi cael ei drawmateiddio gan drais yr ymosodaid. Roedd milwyr o Lu Amddiffyn Israel wedi saethu bwledi i mewn i bob stafell, yn cynnwys stafell wely'r plentyn. Mae Ahmad yn bum mlwydd oed erbyn hyn, ond all e ddim mynd allan i chwarae gyda'r plant eraill yn y gwersyll ffoaduriaid. Tra bod y plant eraill wedi dysgu adnabod arwyddion perygl, gan wasgaru pan glywant sun tanciau'n nesáu, all Ahmad ddim clywed y perygl. Mae'n gorfod gwylio'r byd o ffenestr ei lofft. Mae ei rieni'n poeni'n ddirfawr am ei iechyd, ei ddiogelwch, a'i ddyfodol.

Cafwyd addewidion i helpu Ahmad i gael triniaeth yng Nghymru, ac efallai cael cymorth clyw, ond mae mynydd i'w ddringo cyn y gall hynny ddigwydd. Bydd angen pasbortau ac arian ar Ahmad a'i dad ar gyfer y daith i Gymru, ond cyn hynny, bydd yn anhygoel o anodd iddyn nhw allu ymadael â'r gwersyll ffoaduriaid. Mae'r gwersyll wedi bod o dan warchae, i bob diben, ers wythnosau lawer, wedi ei amgylchynu, a phob mynediad wedi ei selio gan Lu Amddiffyn Israel. Maent yn rhwystro bwyd a moddion rhag cyrraedd y gwersyll ar hyn o bryd. Mae teithio o fewn y Tiroedd dan Feddiant a chael gafael ar y dogfennau angenrheidiol er mwyn gallu mynd drwy siecbwyntiau'r fyddin wedi mynd yn fwyfwy anodd. Bydd Ray, ynghyd â Chydgefnogaeth Palesteina Cymru, yn parhau i ymgyrchu dros Ahmad, er mwyn iddo gael y cymorth sydd ei angen arno. Gallai ei lwyddiant ef ennyn gobaith ymhlith y miloedd o blant eraill sydd wedi eu carcharu yn y gwersylloedd ffoaduriaid, sy'n breuddwydio am fywyd gwell.



Ni ellir sicrhau diogelwch tymor-hir Ahmad, a phlant Iddewig a Phalestinaidd eraill drwy drais y wladwriaeth neu drais brawychwyr, dim ond drwy gyfiawnder gwirionedd, a thrwy adfer hawliau dynol i bawb.

### heddweithredu:

**I gyfrannu neu i gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â Ray Davies, 172 Heol y Pandy, Bedwas, Caerffili CF83 8EP; (02920) 889514; ebost raydavies@caerphilly.gov.uk Sieciau'n daladwy i: 'Palestine Solidarity Campaign'.**

## Cryfhau Heddwch a Chyfiawnder

# Maer Pen-y-bont yn cysylltu â Libya

O ganlyniad i syniad gan CND Pen-y-bont a Chlymblaid Heddwch a Chyfiawnder Pen-y-bont, mae Maer y dref, Suleman Hawas wedi sgrifennu at y Cyrnol Gaddafi. Yn ei lythyr, mae'r Cynghorydd Hawas yn llongyfarch Arlywydd Libya ar ei benderfyniad i beidio ag adeiladu arfau dinistr torfol ac i ufuddhau i'r Cytundeb Atal Ymlediad. Mae Maer Pen-y-bont hefyd yn cefnogi apêl Libya ar i "bob gwlad ... ddilyn y camau hyn heb eithriad na safonau deublyg." Ganed y Cyngorydd Hawas yn Libya ac mae'n credu mai fe yw'r maer cyntaf yng Nghymru ac ym Mhrydain sy'n dod o Libya.

Cefnogodd Cyngor Tref Pen-y-bont y weithred hon o gyfeillgarwch, ac roedd sylwadau cynghorwyr a gefnogai'r cam yn dangos eu bod yn credu fod hyn yn gwir gynrychioli temladau pobl y dref. Mae'r Maer yn gobeithio y bydd y Cyrnol Gaddafi yn cytuno i gryfau cysylltiadau rhwng cymunedau a sefydlu dolen gyswllt ddinesig gyda'r nod o feithrin heddwch a chyfeillgarwch rhwng pobloedd.

### heddweithredu:

**Copïwch y Cynnig Bore (EDM) 442 yma a'i ddanfon ar eich AS (cyfeiriad ar dud. XXX) a gofyn iddo/iddi ei arwyddo:**

**LIBYA, IRAN, ISRAEL A'R CYTUNDEB ATAL YMLEDIAD NIWCLEAR**
**15.01.04**

**Fod y tw hwn yn llongyfarch y Llywodraeth am ei hymdrechion diplomatig maith sydd wedi cyfrannu at benderfyniad Libya i roi terfyn ar ei rhaglenni arfau niwclear, cemegol a biolegol; yn canmol y Llywodraeth am ymdrechion cyffelyb sydd wedi annog Iran i arwyddo protocol ychwanegol sy'n caniatáu i arolygwyr rhwngwladol ymweld â'i sefydliadau niwclear; yn ystyried y datblygiadau positif hyn fel camau pwysig iawn o ran magu hyder, a fydd yn cynorthwyo'r trafodaethau heddwch cyfredol yn y Dwyrain Canol; yn nodi datganiad diweddar gan Gyfarwyddwr Cyffredinol yr Awdurdod Ynni Atomig Rhyngwladol, Mohamed El Baradei, a ddefnyddiodd gyfweliad gyda'r papur-newydd Israelaidd, *Haaretz*, i alw ar Israel i ymuno â'r Cytundeb Atal Ymlediad fel gwladwriaeth heb arfau niwclear; a felly'n annog y Llywodraeth i weithio gydag UDA a chynghreiriaid eraill i annog Israel i ymateb yn bositif i'r camau gan Libya ac Iran drwy roi'r gorau i'w harfau niwclear er mwyn helpu i sicrhau diarfogi niwclear cynhwysfawr yn y Dwyrain Canol.**

# Mehdi yn atal y peiriant rhyfel

Iraci Prydeinig yw Mehdi El-radhi sy'n byw yn y Canolbarth. Mae'n wynebu achos llys yn Llys y Goron Snaresbrook yn Lloegr, am gymryd rhan mewn gweithred uniongyrchol ddi-drais yn Ffair Arfau'r DSEi yn Llundain ym mis Medi 2003. Disgwylir i achos Mehdi ddigwydd wrth i 'heddwch' fynd i'r wasg. Mae'r Ffair Arfau, sy'n digwydd bob yn ail flwyddyn, yn gâs arddangos ar gyfer arfau ac fe'i cefnogir gan y llywodraeth Brydeinig. Gwahoddwyd cynrychiolwyr llywodraethau o bedwar ban y byd i'r ffair fasnach, lawer ohonynt o wledydd y mae ei camdriniaeth o hawliau dynol yn hysbys, fel Afghanistan, Israel, Syria, Twrci, Indonesia, India a Pakistan. Dygwyd yr achos yn erbyn Mehdi o dan y Ddeddf Niwed Maleisus. Fe'i cyhuddwyd o geisio atal Rheilffordd Ysgafn y Dociau rhag gweithredu drwy gloi ei hun wrth y tren oedd yn cario cynrychiolwyr i'r digwyddiad gwrthun yma.

Mae gan Mehdi, a gymeroedd ran mewn llu o brotestiadau yn erbyn y rhyfel yn 2003, deulu yn byw yn Baghdad ac mae'n credu fod eu bywydau wedi cael eu peryglu gan ledaeniad arfau, a'r broses hyll o brynu a gwerthu marwolaeth gyda gwledydd ag enw ofnadwy am hawliau dynol.

heddweithredu:

**I gysylltu â Mehdi i'w gefnogi, cysyllter ag CND Cymru (Cysylltiadau, tud. 18).**

**Mae hysbysebion yn ymddangos yn y wasg eisoes ar gyfer DSEi 2005. Lluniwyd cynllun ar gyfer gweithredu yn y dyfodol gan nifer o bobl sy'n rhan o grup cyd-drefnu DISARM DSEi a hoffai weld yr ymgyrch yn parhau ac yn tyfu. Maent yn rhagweld amrywiaeth eang o brotestiadau, o ddeisebau a stondinau i bicedu a gweithredu uniongyrchol. Cysyllter â: BM Box 3679, Llundain WC1N 3XX ffôn: 07817 652029 ebost: disarm@dsei.org gwefan: www.dsei.org**

# Cyfraith neu ryfel - y daith faith

Ni lwyddodd yr ymgyrchydd heddwch o sir Benfro, Robbie Manson, yn ei ymgais i ddwyn achos llys yn erbyn Tony Blair, Jack Straw a Geoff Hoon am eu rhan mewn "cynllunio, paratoi a dechrau" y rhyfel yn erbyn Irac.

Roedd Robbie wedi dadlau fod y tri wedi cyflawni "trosedd yn erbyn heddwch" drwy gefnogi'r UD yn y rhyfel yn erbyn Irac "heb hyd yn oed yr esgus fod ganddynt gyfiawnhad dros weithredu am fod angen i ni ein hamddiffyn ein hunain".

Ar ôl gwneud llwyth anferth o waith ac ymchwil, lansiodd Robbie ei achos ger bron Ynadon Caerfyrddin ym mis Mawrth 2003 ac yna, ddau fis yn ddiweddarach, yn Llys Bow Street, Llundain. Penderfynodd y ddau lys nad oedd cychwyn rhyfel ymosodol yn drosedd o dan gyfraith Cymru a Lloegr.

Mae gwaith pwysig Robbie Manson yn parhau. Mae'n eiddgar i sicrhau fod Egwyddorion Nuremberg yn cael eu cydnabod gan gyfraith y DU. Mae wedi chwarae rhan yn y broses o sefydlu 'Cyfreithwyr yn erbyn Rhyfel', a gynhaliodd ei gyfarfod cyntaf yn ddiweddar, wedi ei gadeirio gan Elfyn Llwyd AS. Mae wedi sefydlu 'Grwp Ymchwilio Holl-bleidiol' yn Senedd San Steffan.

Mae Robbie yn un o sylfaenwyr y Sefydliad dros y Gyfraith a Heddwch, ac yn aelod hefyd o 'Law against War' (dau fudiad sy'n gweithredu o Lundain). Mae'n byw yng ngogledd sir Benfro ac mae'n aelod gweithgar o fforwm heddwch leol: Bro Emlyn dros Heddwch a Chyfiawnder.

heddweithredu:

**Os carech wybod mwy neu chwarae rhan mewn rhwydwaith 'LAAW' yng Nghymru, cysylltwch â Robbie Manson ar (01239) 821 066 robbie@brynymor58.freeserve.co.uk Cefndir cyfreithiol pellach i'r achos ar www.bepj.org.uk/rmanson/**

## Sellafield

# Egwyddorion ar y cledrau

Mewn gweithredd uniongyrchol ysbrydoledig ac unig ym mis Ebrill 2003, cadwynodd Martin Forwood, aelod o Cumbrians Opposed to a Radioactive Environment (CORE), ei hun wrth y rheilffordd yn nociau Barrow yn Cumbria i rwystro llwyth o danwydd niwclear hesb 20-mlwydd oed o'r Eidal rhag cyrraedd Sellafield i gael ei ailbrosesu. Ym mis Rhagfyr, wedi i'w amddiffyniad ddefnyddio'r Ddeddf Hawliau Dynol i ddadlau fod pob cyfiawnhad dros y weithred gan mai dyna'r unig ffordd i alw sylw ar ddrygioni mwy, cafodd Martin Forwood ddirwy o £250 gyda £1,500 o gostau. Caniataodd y barnwr, a ganmolodd ddiffuantrwydd Martin a'i natur addfwyn, i'r diffynnydd egluro pam roedd wedi gweithredu, a pham roedd mewnforio "gwastraff" i Brydain o'r Eidal yn anghyfreithlon ac yn ddrwg. Cafodd y weithred a'r achos llys sylw helaeth yn y wasg, felly roedd yn weithred werthchweil.

Mae'r broblem ei hun yn dal heb ei datrys. Mae cyfanswm o 57 tunnell fetrig o danwydd hesb yn cael ei fewnforio i Sellafield o'r Eidal mewn 13 llwyth dros ddwy flynedd, o dan gytundeb a arwyddwyd ym 1980 pan ddisgwylid y byddai'r wraniwm a'r plwtoniwm a fyddai'n cael ei adennill o'r tanwydd hesb yn cael eu defnyddio fel tanwydd newydd mewn adweithyddion niwclear. Ers hynny, mae'r Eidal wedi cau ei diwydiant niwclear yn sgîl refferendwm wedi Chernobyl. Mae'r llwyth mawr o danwydd hesb sydd ganddi yn embaras, ac ni all ddod o hyd i safle storio tymor-hir addas yn yr Eidal oherwydd gwrthwynebiad cyhoeddus - sefyllfa debyg i'r sefyllfa ym Mhrydain. Cred CORE na fydd y defnydd byth yn dychwelyd i'r Eidal, ond y bydd yn dod i orffwys gyda'r tunelli lawer o ddefnydd tebyg sydd eisoes wedi crynhoi yn Sellafield. Bydd storio a gwarchod y defnyddiau niwclear yn creu peryglon a chostau sylweddol, am gyfnod penagored.

Llongyfarchiadau i Martin Forwood a CORE ar weithred wych.

heddweithredu:

**Martin Forwood a CORE: 98, Church Street, Barrow, Cumbria LA14 2HT (01229) 833 851 info@core.furness.co.uk www.corecumbria.co.uk**

# Fforwm Ieuenctid Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy

Crewyd y Fforwm hon gan bobl ifanc i ymbweru holl bobl ifanc Cymru drwy roi cyfle iddyn nhw i leisio barn ar addysg ac ar faterion yn ymwneud â datblygn cynaliadwy. Mae pobl ifanc yn teimlo fod arnynt ddyletswydd i geisio pwyso ar fater datblygu cynaliadwy oherwydd mai nhw fydd yn byw gydag etifeddiaeth penderfyniadau heddiw. Mae'r cyfarfodydd hyd yn hyn wedi trafod materion lleol a byd-eang. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda Llywodraeth y Cynulliad.

Mae'r Fforwm yn bwriadu lansio'r mudiad yn swyddogol mewn cynhadledd ryngwladol yng Nghaerdydd lle bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn gobeithio dwyn ynghyd lywodraethau rhanbarthol o bedwar ban y byd sydd ag ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy. Bydd aelodau'r Fforwm yn ceisio dangos y dylid bob amser ymgynghori â phobl ifanc ac y gallant wneud cyfraniad gwerthfawr.

heddweithredu:

**Chwaraewch ran! Cysylltwch â'r Fforwm Ieuenctid:**
**Cathy Madge, 18 oed, Y Drenewydd, y Canolbarth**
**cathy@wyfsd.org Ffôn: (01686) 650 724**
**Rhys Richardson, 19 oed, Pontypridd, de Cymru**
**rhys@wyfsd.org Ffôn: 07745 183 778**
**Nick Edwards, 17 oed, Machynlleth, y Canolbarth**
**nick@wyfsd.org Ffôn: (01654) 703 684**

fairford

# Gweithredwyr ger bron Llys

**Flwyddyn yn ôl, honnir fod Margaret Jones a Paul Milling wedi niweidio nifer o gerbydau milwrol yng ngwersyll Awyrlu'r Unol Daleithau yn Fairford yn swydd Gaerloyw. Roedd y cerbydau ar fin cael eu defnyddio i gludo tanwydd i awyrennau bomio'r UD, eu harfogi, a'u paratoi yn gyffredinol i ollwng bomiau ar bobl Irac. Bydd y gweithredwyr yn defnyddio'r amddiffyniad 'esgus cyfreithiol' – hynny yw, eu bod wedi gweithredu gyda'r bwriad o atal trosedd ryngwladol fwy ac nad ydynt, gan hynny, yn euog.**

**RAF/USAF Fairford yw un o ddim ond tri maes awyr blaen (y tu allan i'r UD) a ddefnyddir ar gyfer awyrennau bomio 'Stealth' B2. Mae'r canolfannau eraill yn Guam a Diego Garcia. Mae'r B2 wedi gollwng bomiau B61 a B83 mewn profion, sef y cyntaf o genhedlaeth newydd o arfau niwclear mwy 'defnyddiadwy'. Ar y 3ydd a'r 4ydd o Fawrth 2003, glaniodd pedair ar ddeg o awyrennau bomio B52 yn RAF/USAF Fairford i baratoi ar gyfer bomio Irac, a ddechreuodd ar yr 20fed o Fawrth. Ar 24ain o Ebrill 2003, ar ôl 142 o gyrchoedd a 54 diwrnod, aethant adref.**



**awyren B2**

Dyma Margaret yn sgrifennu am y cawlach yn y llysoedd:

Fis Medi diwethaf, cafodd achosion Fairford – yn deillio o weithredoedd yn erbyn y rhyfel yn USAF Fairford, swydd Gaerloyw – eu symud o Lys y Goron Caerloyw i Fryste. Roedd barnwr Caerloyw wedi gorchmynyn y dylid cynnal gwrandawiad wythnos o hyd ar faterion cyfreithiol yn ymwneud â'r rhyfel yn Irac. Penodwyd barnwr o'r Uchel Lys, Mr Ustus Butterfield, i wrando ar yr achosion.

Er gwaethaf holl gyfreithwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn a fu'n llercian o gwmpas Llys y Goron yng Nghaerloyw yn y gwrandawiad olaf yno – ac er gwaethaf ymadawiad y Barnwr Tabor galluog, a ddywedodd ei fod yn gresynu na châi wrando ar yr achosion – roedd y tîm amddiffyn yn obeithiol. Ymddangosai fel pe bai pethau'n dechrau symud.

Yna, ar y 15fed o Ragfyr, galwyd yr holl gyfreithwyr i wrandawiad Cyfarwyddyd yn Truro (lle'r oedd Mr Butterfield yn gwrando ar achos arall ar y pryd). "Rhaid i rywun gael gafael ar yr achos yma," meddai Mr. Butterfield – cyn tynnu'n ôl o'r tri achos Fairford. Felly, i bob diben, aeth chwe thwrnai a phedwar diffynnydd yr holl ffordd i Gernyw i gael clywed "Mae angen barnwr arnoch chi".

Pennwyd dyddiad ar gyfer yr achos, sef Mawrth 8fed – bron flwyddyn wedi i'r diffynyddion gael eu cyhuddo o gynllwyn a niwed troseddol – ond rhoddwyd y gorau i hynny. Cafodd Milling a Jones ddyddiad newydd, sef Mehefin 21ain, gydag achos Phil Pritchard a Toby Olditch (a gyhuddwyd o geisio diarfogi awyren B-52) i ddilyn ddwy wythnos yn ddiweddarach. Chaiff Josh Richards – a restiwyd ar wahân am "fynd â chyfarpar" i ddiarfogi B-52 – ddim gwrandawiad tan yr 21ain o Orffennaf fan gynta. O leiaf cafodd barnwr newydd ei benodi – Mr Ustus Grigson. A'r gwrandawiad rhagarweiniol enwog ar gwestiynau cyfreithiol? – addawyd dyddiad "cyn bo hir".

Does dim gwahaniaeth faint o amser a gymer yr holl broses, fe fyddwn ni'n dal ati i'r pen. Diolch i CND Cymru, am eich cefnogaeth foesol ac ariannol hael!

**Margaret Jones**

heddweithredu:

**Mae angen cefnogaeth foesol ac ariannol i'r achosion hyn: (0117) 94 66 885 neu 07711 214 168. Gobeithio y daw cefnogwyr i'r gwrandawiad ar Fawrth 8fed. Gweler www.fairfordpeacewatch.com**

heddweithredu:

**Mwy o wybodaeth am fairford Coach Action gan Jane Laporte ar 07817 483 167 neu Dave Jones ar 07779 599 560. Bydd 'heddwch' yn adrodd ar ganlyniad yr achos hwn. Grwp o ryw 60 o deithwyr sydd wedi penderfynu ceisio Adolygiad Barnwrol o weithredoedd yr heddlu ar yr 22ain o Fawrth 2003 yw Fairford Coach Action. Gwybodaeth gefndir lawn ar y wefan: http:// www.fairfordcoachaction.org.uk/**

# Rheolau gwisg yn USAF Fairford

Mae'r Uchel Lys ar fin ystyried pa mor gyffreithlon oedd tactegau'r heddlu cyn gwrthdystiad yn erbyn y rhyfel fis Mawrth diwethaf. Bydd y gwrandawiad yn canolbwyntio ar ddigwyddiadau ger USAF/RAF Fairford, Swydd Gaerloyw, ond bydd ei effaith yn llawr ehangach: mae'r rhai oedd yn ceisio protestio yn dadlau fod y Ddeddf Hawliau Dynol yn atal yr heddlu rhag dibynnu ar 'bwerau cyfraith gyffredin' i'w cadw yn y ddalfa.

### Ffrisbi amheus

Ar yr 22ain o Fawrth 2003 ataliwyd tri llond-bws o ryw 150 o ymgyrchwyr heddwch gan yr heddlu rhag mynychu gwrthdystiad yn erbyn y rhyfel y tu allan i wersyll yr UD yn Fairford. Stopiodd yr heddlu y bysys a'u chwilio ryw chwe milltir o'r gwersyll. Honnai'r heddlu fod eitemau a gymerwyd ganddynt o'r bws yn eu harwain i gredu fod bwriad o darfu ar yr heddwch ger y gwersyll. Roedd yr "eitemau tramgwyddus" hyn yn cynnwys gwisgoedd papur gwyn, sgarffiau, milwyr tegan plastig a ffrisbi.

### Nunlle i guddio

Gorfododd yr heddlu y bysys yn ôl ar y draffordd a'u hamgylchynu â faniau heddlu a heddlu ar feiciau modur yn holl ffordd yn ôl i Lundain. Ffoniodd rhai o'r teithwyr 999 i gwyno eu bod yn cael eu herwgipio ond dywedwyd wrthynt nad oeddynt yn y ddalfa a'u bod yn rhydd i fynd bryd bynnag y mynnent. Fodd bynnag, gwrthododd yr heddlu gytuno i'r bysys aros i bobl gael mynd i'r ty bach hyd yn oed, a bu rhaid i un fenyw wneud dur mewn blwch brechdanau yng nguydd heddlu â chamerâu fideo.

### Hawliau dynol

Mae rhyw 60 o'r teithwyr yn cymryd rhan yn yr achos llys. Maent yn hawlio fod gweithredoedd yr heddlu wedi torri rhai o erthyglau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, sy'n gwarantu rhyddid rhag carcharu heb reswm, rhyddid i lefaru ac ymgynnull, a pharch i iechyd corfforol a seicolegol.

Meddai twrnai sy'n cynrychioli un o'r teithwyr:

*"prin y gellir credu fod yn Heddlu'n ei hystyried hi'n gyfreithiol i ddefnyddio gorfodaeth i gadw yn y ddalfa 120 o bobl oedd heb gyflawni unrhyw drosedd o gwbl, a rhwystro eu hawl ddemocraidd i brotestio... does dim lle o gwbl i'r fath heddgeidwadaeth mewn cymdeithas ddemocrataidd."*

# Fflur Faslane

**Mae gweithredoedd gan ymgyrchwyr Trident Ploughshares, ac achosion llys o ganlyniad, yn parhau. Ym mis Ionawr, cafodd hen law ar ymgyrchu dros heddwch ei dirwyo yn Llys Helensburgh am ddwyn gwarchae ar fynedfa canolfan y llynges yn Faslane, cartref llongau tanfor arfau niwclear Trident Prydain.**




Roedd Helen Steven ac Ellen Moxley o Stoer ger Lochinver ill dwy ger bron y llys am gymryd rhan yn y gwarchae ar y ganolfan ar Ebrill 22ain llynedd.
Dywedodd Helen wrth yr Ynad Heddwch fod Trident yn dal i fod yn anghyfreithlon yn ôl dyfarniad y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol ym 1996, er gwaethaf barn Uchel Lys yr Alban ar gyfeiriad yr Arglwydd Adfocad ar ôl achos Tri'r Trident. Roedd ei chred Gristnogol yn golygu fod yn rhaid iddi wrthwynebu Trident. Yn ei geiriau hi, roedd Trident yn cynrychioli "colli pwyll a cholli enaid".
Er syndod i neb, er gwaethaf tystiolaeth fod ei gweithred yn un heddychlon – wedi'r cwbl, roedd wedi ei gwisgo fel blodyn ar y gwarchae – fe'i cafwyd yn euog o dorri'r heddwch a'i dirwyo £100, gyda Gorchymyn Mynychu dan Oruchwyliaeth i ddod i rym yn awtomatig os na fydd yn talu

Ellen, un o Dri'r Trident a gafwyd yn ddieuog ym 1999 ar ôl iddyn nhw ddiarfogi bad ymchwil Trident, y Maytime, oedd y nesaf i ymddangos. Dywedodd y Procuradur Ffisgal y nodwyd yn ystod achos Helen ei bod wedi ei chadwyno wrth Ellen, ac y byddai'n annheg ei gosod ar brawf ger bron yr un ynad ar yr un dydd. Dywedodd na ddylid ei gorfodi i deithio'r holl ffordd i'r de ato am achos arall, a derbyniodd ei phle ddieuog.


Un arall a deithiodd ymhell i gyrraedd y llys oedd Adam Conway o Kilkenny, gweithiwr gwirfoddol gyda'r ymgyrch amgylcheddol Wyddelig "Gluaiseacht". Pan gyrhaeddodd, clywodd fod yr achos yn ei erbyn wedi cael ei ollwng am fod un o dystion y Goron heb ddod i'r llys. Fodd bynnag, dywedodd wrth y llys fod gwarant yn ei erbyn am fethu talu dirwy o £175 a dderbyniodd ar ôl gwarchae ar storfa arfau niwclear Coulport ym mis Awst 2001, a'i fod yn dal i wrthod talu. Yn hytrach na'i garcharu, dyma'r ynad yn trosglwyddo'r ddirwy i'w lys lleol, sef Kilkenny yng Ngweriniaeth Iwerddon, gan fwrw'r cyfrifoldeb ymaith dipyn ymhellach nag arfer!

Ym mis Ionawr hefyd, cafodd yr awdur Albanaidd Angus Calder ddirwy o £75 am gymryd rhan mewn gwarchae torfol ar ganolfan y llynges yn Faslane. Roedd y bardd a'r hanesydd 61 mlwydd oed yn un o 170 o bobl a restiwyd yn ystod y Gwarchae Gwirioneddol Fawr ar ganolfan arfau niwclear Trident ar yr 22ain o Ebrill y llynedd. Cyfaddefodd ei fod wedi gorwedd yn y ffordd, ond dywedodd fod ei weithred, a'r holl brotest, wedi bod yn heddychlon, a'i fod wedi bod yn gweithredu ei hawl o dan Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Dywedodd y Procuradur Ffisgal nad oedd yr hawl honno mewn grym os oedd rhywun yn torri cyfraith gwlad, ac y gallai Angus fod wedi gwrthdystio ar y palmant heb berygl o gael ei restio.

Dywedodd llefarydd dros Trident Ploughshares:

*"Dydyn ni, wrth gwrs, ddim yn credu fod gwarchae heddychlon a di-drais ar Faslane yn torri'r heddwch a'i fod yn groes i gyfraith gwlad. Y cwbl mae'n ei dorri yw dehongliad anghywir a rhagfarnllyd y llys hwn o'r gyfraith. Ddylai pobl sy'n gorwedd yn y ffordd yn Faslane ddim cael eu restio, ddim mwy na'r rheini sy'n sefyll ar y palmant".*

**Trident Ploughshares - Y Stadegau Diweddaraf (Mis Medi 2003):2,000 wedi eu restio.372 o achosion, gyda llawer mwy yn disgwyl gwrandawiad.1,970 o ddiwrnodau wedi eu treulio yn y carchar, heb gynnwys amser mewn celloedd heddlu£59,917 mewn dirwyon a iawndal (15eg Tachwedd 2003) 202 o ymrwymwyr o 14 o wledydd.**




### Arfau Dinistr Torfol – dwyn gwarchae ar safle storio

Ar y 19eg o Ionawr, cafwyd dwy awr a hanner o warchae gan dri gweithredydd ar brif glwyd RNAD Coulport, y ganolfan lle mae ergydion Trident yn cael eu storio. Wrth i gerbydau oedd yn ceisio mynd i fewn i'r gwaith ffurfio cwt faith yn y curlaw, cymerodd gryn amser i dîm torri'r Weinyddiaeth allu torri'r tri yn rhydd o ddau diwb cloi dur, gan ddefnyddio llif dorri dur. Cafodd y tri eu restio am dorri'r heddwch a'u cadw yn y ddalfa yn Faslane am ychydig oriau.

Dywedodd un o'r gweithredwyr, *"Dim ond Arfau Anfodolaeth a gafwyd yn Irac hyd yn hyn. Yn y cyfamser, mae'r DU, yn gwbl ddigywilydd, yn storio a llwytho Arfau Dinistr Torfol yn y fan hon, yn barod i'w defnyddio ar unrhyw adeg yn erbyn sifiliaid diniwed mewn gwledydd y bernir eu bod yn fygythiad. Er budd pwy mae hynny?"*

## heddweithredu:

***Ymrwymwch i Trident Ploughshares.**
***Dewch i'r gweithredoedd torfol.**
Mae croeso i bawb sydd am brotestio'n ddi-drais yn erbyn Trident i ymuno â gweithredoedd torfol. Yn ogystal â rhoi llawer o gefnogaeth ac anogaeth i'r rhai sy'n cael eu restio, efallai y byddwch am ystyried ymuno yn y weithred. Os felly, gellwch fynychu cwrs hyfforddiant byr – a mwynhau ychydig o oriau yn dysgu beth yn union i'w ddisgwyl.
***Rhowch gyfraniad a chodwch arian**
Mae angen arian ymgyrchu beunydd. Danfonwch gyfraniadau (sieciau'n daladwy i 'Trident Ploughshares 2000') i'r cyfeiriad isod, os gwlewch yn dda.
***Deisebau o Gefnogaeth i Trident Ploughshares.** Mae deisebau cefnogaeth ar gael i unigolion, mudiadau, gwleidyddion ac ati eu harwyddo Cysyllter â Trident Ploughshares am fwy o wybodaeth.

Cysyllter â: Trident Ploughshares, 42-46 Bethel St, Norwich NR2 1NR (0845) 45 88 364 info@tridentploughshares.org www.tridentploughshares.org

## Atal y genhedlaeth nesaf o arfau dinistr torfol!

### Gorymdaith o Lundain i'r Sefydliad Arfau Atomig yn Aldermaston, Pasg 2004

Dydd Gwener 9fed tan Ddydd Llun Gwyl y Banc 12fed Ebrill

Mae'r llywodraeth Brydeinig wrthi'n paratoi i ddatblygu cenhedlaeth newydd o arfau niwclear yn Sefydliad Arfau Atomig Aldermaston ger Reading. Mae Gwersyll Heddwch Menywod Aldermaston, yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear a grwpiau heddwch lleol eraill yn bwriadu dangos sut mae pobl yn teimlo ynglyn ag ymgais Prydain i adeiladu arfau dinistr torfol newydd – gyda gorymdaith o Lundain i Aldermaston dros benwythnos y Pasg 2004.

Bydd yr orymdaith yn dechrau gyda rali fawr yn Sgwâr Trafalgar ddydd Gwener Ebrill 9fed, a bydd yn symud drwy Lundain i Southall, i Slough ac yna i Reading ac ymlaen i Aldermaston. Mae llwybr y daith o Lundain yn rhyw 50 milltir o hyd ac mae'n hawdd ei gyrraedd ar gludiant cyhoeddus ar hyd y ffordd. Bydd y brotest yn dod i uchafbwynt gydag amgylchynu Sefydliad Aldermaston ddydd Llun Gwyl y Banc Ebrill 12fed.

Bydd hwn yn gyfle gwych i gynnull y grwpiau anhygoel o amrywiol sydd wedi bod mor weithgar yn y flwyddyn ddiwethaf, er mwyn i bawb ddod i adnabod ei gilydd yn well, a gweithio ar y cyd i danlinellu rhagrith a chelwyddau peiriant milwrol Prydain a'r UD.

Am fwy o fanylion, neu os hoffech drefnu gorymdaith 'borthi' o'ch ardal chi, gweler www.aldermaston2004.net neu cysyllter â'r trefnwyr: 18, Greenway Road, Bryste BS6 6SG, tel: XXX info@aldermaston2004.net

Mae cyfraniadau tuag at drefnu'r orymdaith yn rhan o'r weithred. Os hoffech ychwanegu eich llais at y galw cyhoeddus am ddiarfogi drwy gyfrannu, danfonwch siec yn daladwy i "Aldermaston 2004" i'r cyfeiriad uchod.

## Newyddion am dorri cytundeb

# Cynlluniau ar gyfer arfau dinistr torfol Prydeinig newydd

**Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn bwriadu dablygu Sefydliad Arfau Atomig Aldermaston (SAA) ger Reading, ar gyfer gwaith ymchwil a phrofion ar ddefnyddiau ar gyfer arfau niwclear newydd.**

Gan fod y Cytundeb Gwahardd Profion Cynhwysfawr (CGPC) yn gwahardd profion niwclear tanddaearol, mae labody laser newydd a labordai cysylltiedig yn mynd i gael eu hadeiladu fel rhan o Gynllun Strategaeth Datblygu Safleoedd y SAA.[1] Mae'r cynllun yn cynnwys uwchgyfrifiadur, canolfan gynhadledd, bloc llety a thirlunio. Elfen allweddol y project yw recriwtio cant a mwy o wyddonwyr, y mae'r SAA yn gobeithio eu denu drwy gynnig yr offer diweddaraf a chydweithrediad clos gyda gwyddonwyr sy'n gweithio ar raglen arfau niwclear yr Unol Daleithau.

### Cynllunio

Ym mis Hydref 2003, gosododd y Weinyddiaeth Amddiffyn Gynllun Amlinelliad ger bron Cyngor Dosbarth West Berkshire (WBDC) er mwyn cael ei sylwadau. Er na all y cyngor wrthod caniatâd cynllunio, gall wrthod rhoi sylwadau, cam a fyddai'n achosi i swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog alw am ymchwiliad cyhoeddus. Ni chafodd tair deiseb a 200 o wrthwynebiadau i'r cynllun – bob un y galw am ymchwiliad cyhoeddus – wrandawiad gan WBDC hyd yn hyn. Ar yr 17eg o Ragfyr, pleidleisiodd y pwyllgor cynllunio yn unfrydol i beidio â gwrthwynebu'r cyntaf mewn cyfres o gynlluniau, ar gyfer canolfan laser yn Aldermaston.

### "Rhag ofn"

Hyd yn hyn, ni fu dadl yn y Senedd nac unrhyw gyhoeddiad ynglyn ag olynydd i Trident neu ynglyn â datblygu arf newydd, mwy "defnyddiadwy". Yn ei Phapur Gwyn diweddar, dywedodd y llywodraeth efallai y bydd yn gwneud cyhoeddiad yn ystod y senedd nesaf. Y sefyllfa ar hyn o bryd yw: 'Mae ar y SAA angen yr is-adeiledd yn barod i ddatblygu arf newydd *rhag ofn y bydd penderfyniad'*. Mae'r datblygiadau hyn yn gwbl groes i Gytundeb Atal Ymlediad (CAY) niwclear 1970 a gwyddom y byddai arfau newydd, mwy 'defnyddiadwy' yn cynyddu'r bygythiad y gallai arfau niwclear gael eu defnyddio mewn rhyfel.

### Etifeddiaeth

Cafodd holl ergydion niwclear Prydain eu hadeiladu yn Aldermaston. Ar hyn o bryd, mae'r SAA wrthi'n gwneud gwaith cynnal a chadw ar ryw 180 o ergydion Trident o Storfa Arfau'r Llynges Frenhinol yn Coulport, yr Alban, ac wrthi'n dadgomisiynu hen ergydion ac offer cynhyrchu. Mae sgiliau gwirio'r SAA a'i gyfraniad i'r gwaith dadgomisiynu yma yn angenrheidiol i'r broses ddiarfogi niwclear ymarferol. Felly, ni all y Sefydliad gau yfory! Bydd hefyd yn rhaid diogelu, awyru a monitro'r safle llygredig a'r storfa wastraff niwclear am flynyddoedd lawer.

Yn olaf, ond nid lleiaf, mae mwy na 50 mlyned o allyriadau ymbelydrol o'r SAA wedi gadael plwtoniwm ac wraniwm, sy'n achosi canser, yn yr amgylchedd. Mae nwyon ymbelydrol a ollyngwyd oddi yno wedi mynd o gwmpas y byd gan gynyddu lefelau ymbelydredd cefndir pawb. Yn y cylch, mae allyriadau hylif a nwyol wedi gadael mannau poeth ymbelydrol a chlystyrau lewcemia ger llaw. Bydd y safle'n parhau i ollwng plwtoniwm, wraniwm, tritiwm a radio-niwclidau eraill i mewn i afon Tafwys yn Pangbourne tan 2005.

### Arfau dinistr torfol

Mae'r project datblygu arfau niwclear yma yn darogan ras arfau niwclear newydd sy'n amhosibl ei chyfiawnhau yn gyfreithiol, yn ariannol, yn filwrol neu'n foesol. Ac yn sicr, nid yw hyn yn gyson â rhesymeg llywodraeth sy'n mynnu y dylai gwledydd eraill gael gwared o'u Harfau Dinistr Torfol.

**Di Macdonald**

1. Mae cynllun Strategaeth y SAA ar y wefan www.awe.co.uk/main_site/scientific_and_technical/publications/pdf_reports/20885-sd-plan-update.pdf

**Di Macdonald yw Cyfarwyddydd Gwaith y Gwasanaeth Gwybodaeth Niwclear (NIS), mudiad dadansoddi ac eiriol annibynnol sydd yn gwneud gwaith ymchwil ac yn cynnig archwiliad beirniadol o bolisïau niwclear milwrol Prydain, datblygiadau, cludiant, arfogaeth a diarfogi.**

# Tariannau Dynol Cymru" yn dychwelyd o strydoedd Baghdad

**Mae Kevin Williams a Helen Kirby o Gasnewydd, Gwent wedi dod adref i Gymru ar ôl treulio pedwar mis yn gweithio gyda phlant y stryd yn Baghdad. Mae Kevin a Helen yn adnabyddus am eu gwaith yn erbyn y rhyfel yn Irac; yn Chwefror a Mawrth 2003 buont yn 'cysgodi' gwaith puro dwr yn Baghdad a oedd ar y pryd yn darparu dwr yfed glân ar gyfer 3 miliwn o bobl.**



Pan aethant yn ôl i Baghdad ym mis Hydref, cawsant fod ymosodiad yr UD a Phrydain ar Irac wedi gyrru mwy na mil o blant diymgeledd i fyw ar strydoedd Baghdad a bod llawer o'r plant wedi dechrau anadlu gliw a chymryd alcohol a hashish. Mae adroddiadau mynych yn awr am blant yn cael eu camdrin.

Yn Baghdad, bu Kevin a Helen yn gweithio ar y strydoedd gyda phlant, yn ceisio lliniaru rhywfaint ar effeithiau ymosodiadau Prydain a'r UD ar y ddinas drwy ddod o hyd i lefydd lle gallai rhai o'r plant gysgu a byw. Buont hefyd yn helpu i brynu, casglu a chludo bwyd ac ati i gartrefi plant amddifad, a buont yn siarad hefyd â milwyr Americanaidd dadrithiedig ac anfodlon.

Heb law am y dioddefaint a achoswyd gan ddinistr cartrefi ac is-adeiledd, amcangyfrifir y bu farw mwy na 10,000 o Iraciaid o ganlyniad i'r ymosodiadau ar Irac, gyda mwy na 1,500 o farwolaethau treisgar ymhlith sifiliaid yn Baghdad o dan y goresgyniad (http://www.iraqbodycount.net/)

Wrth i wleidyddion gyfaddef nad yw hi'n debyg y peryglwyd diogelwch Prydain na'r UD gan Arfau Dinistr Torfol erioed, mae hyn yn pwysleisio'r dioddefaint a'r marwolaethau yn Irac yn fwy byth.

Ym mis Chwefror 2003, dywedodd yr Ysgrifennydd Amddiffyn Geoffrey Hoon wrth Dw'r Cyffredin na fyddai'n addo peidio â defnyddio arfau niwclear yn yr ymosodiad ar Irac. Mae'n amlwg na ddylid ymddiried arfau dinistr torfol i wleidyddion sy'n barod i ymosod ar bobl ac achosi llanast a llofruddiaeth ar sail amheuon gwamal. Mae effeithiau unrhyw ryfel ar iechyd, yr amgylchedd a chymdeithas yn berygl rhy fawr ac mae'n hen bryd i'r gymuned ryngwladol ddechrau gweithio i ddileu arfau dinistr torfol ledled y byd.

:heddweithredu:

**Mae dyddiaduron a ffotograffau Helen a Kevin o Baghdad ar gael drwy ebost gan CND Cymru (press@cndcymru.org ) neu gan Kevin a Helen eu hunain. Mae'r ddau ar gael i annerch grwpiau gwrth-ryfel a heddwch a chyfiawnder. I gysylltu â nhw: ffoniwch: (01633) 857 566 ebost: welshhumanshields@hotmail.com a gweler hefyd www.ourhome-iraq.blogspot.com**

## Mawrth 1af 1954

# Prawf bom hydrogen 'Bravo' yr UD

**Mawrth 1af 2004 yw hanner canmlwyddiant prawf bom hydrogen 'Bravo' Unol Daleithau America ar Atol Bikini yn y Môr Tawel. Dyma'r arf mwyaf a brofwyd erioed gan yr Unol Daleithau.**

Bikini yw un o'r 29 atol a phum ynys sy'n ffurfio Ynysoedd Marshall. Mae atolau Ynysoedd Marshall wedi eu gwasgaru dros 357,000 milltir sgwâr i'r gogledd i'r cyhydedd yn y Môr Dawel.

Cyfeirir at yr ardal fel Micronesia.

### Y Ddraig Lwcus

Roedd cwch pysgota o Japan, 'Y Ddraig Lwcus' yn pysgota ryw 100 milltir o leoliad y prawf. Cafodd pob un o'r criw o 23 eu hymbelydru gan y prawf niwclear. Clafychodd llawer ohonynt a bu un farw yn ddiweddarach. Creodd y digwyddiad ddicter byd-eang, a thanlinellu peryglon llwch ymbelydrol o brofion atmospherig. Bu gwrthdystiadau anferth yn Japan a sefydlwyd y grwpiau ymgyrchu gwrth-brofion niwclear cyntaf ym Mhrydain.

### Ynys Bikini

Ond talwyd llai o sylw i safle'r prawf ei hun. Symudwyd pobl Bikini i ynysoedd eraill ledled Ynysoedd Marshall, a bu llawer yn byw bywydau truenus mewn ardaloedd geto gorlawn. Heb sôn am yr effeithiau ofnadwy ar iechyd ac amgylchedd yr Ynysoedd a'u pobl, roedd canlyniadau cymdeithasegol trychinebus i'r ffordd y cafodd cymunedau eu dadwreiddio fel hyn.

Ym 1968 cafodd rhai o'r ynyswyr ddychwelyd i Bikini ond erbyn 1977 roedd y lefelau radio-niwclidau a ganfuwyd yn eu cyrff mor uchel nes iddynt gael eu symud oddi yno unwaith eto. Ar y 5ed o Fawrth 2001, dyfarnodd y **Tribiwnlys Hawliadau Niwclear** $563,315,500.00 i'r ynyswyr yn sgil achos a ddygwyd gan y Bikiniaid yn erbyn yr Unol Daleithau am iawndal. Fodd, bynnag mae'n ansicr a fydd yr Unol Daleithau'n parchu'r dyfarniad.

### Trefedigaethu niwclear

Mae'r mannau lle gwnaed profion niwclear ym mhedwar ban y byd wedi bod yn ardaloedd lle mae pobloedd frodorol heb bwer yn byw: Americaniaid brodorol yn Nevada ac ynyswyr y Môr Tawl yn Ynysoedd Marshall; y bobl Kazakh ger Semipalatinsk lle'r oedd yr Undeb Sofietaidd; pobl yr Uighur ger safle profion Lop Nur yn China; poblogaeth frodorol Awstralia lle bu Prydain yn gwneud profion, i enwi ond rhai enghreifftiau.



## Iwerddon

# Gweithredoedd Maes Awyr Shannon



*"Mae'r tlodion yn dweud wrthym pwy ydym,Mae'r proffwydi'n dweud wrthym pwy y gallem fod,*
*Felly dyma ni'n cuddio'r tlodion*
*A lladd y proffwydi"*
**Phil Berrigan**

**Ar y 6ed o Ragfyr 2003 ymgasglodd 400 o brotestwyr ger maes awyr Shannon yn County Clare, Iwerddon. Mae'r ffigurau swyddogol yn dangos fod mwy na 125,855 o filwyr yr UD wedi teithio drwy'r maes awyr ar eu ffordd i ymosod ar Irac a'i meddiannu llynedd.** Mae protestiadau parhaus wedi bod yn Iwerddon yn gwrthwynebu'r rhan ganolog a chwaraeodd Iwerddon 'niwtral' mewn cefnogi peiriant rhyfel yr UD. Dywedodd Prif Weinidog Iwerddon, Bertie Ahern, fod Iwerddon wedi darparu cyfleusterau glanio ar gyfer awyrennau milwrol yr UD ers 40 mlynedd, ac nad oedd yn fwriad ganddo atal hynny cyhyd ag y bod yr UD yn ufuddhau i fandadau'r Cenhedloedd Unedig.

### Eoin Dubsky

Ym mis Medi, peintiodd Eoin Dubsky arwyddion heddwch ar awyren Hercules yr UD yn y maes awyr. Fe'i cafwyd yn euog o wneud niwed a chafodd ddirwy o 1000 Ewro ond mae'n apelio yn erbyn y dyfarniad hwnnw.

### Mary Kelly

Mae nifer o brotestwyr heddwch di-drais wedi treulio cyfnodau yn y carchar yn sgîl gweithredoedd diarfogi a phrotestiadau. Ym mis Mai 2003, helpodd mam a nyrs o'r enw Mary Kelly i ddatgelu rhan Iwerddon yn nhrais milwrol yr UD drwy ymosod ar awyren gargo llynges yr UD â bwyell. Mae awdurdodau milwrol yr UD yn hawlio iddi achosi gwerth $1.5 miliwn o niwed i awyren filwrol. Ar y pryd, roedd Mary'n rhan o Wersyll Heddwch Shannon oedd yn ceisio canolbwyntio sylw ar y ffaith fod yn maes awyr yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ail-lenwi awyrennau milwrol yr UD â thanwydd. Honnwyd fod Mary Kelly wedi dringo ffens y maes awyr ac ymosod ar drwyn, olwyn flaen a system hidrolig awyren C40 Boeing 737 llynges yr UD â bwyell. Daeth achos llys cyntaf Mary ym mis Gorffennaf i ben pan fethodd y rheithgor benderfynu, a galwyd am ail wrandawiad yn gynnar eleni. Gwrthodwyd cymorth cyfreithiol estynedig i Mary ar gyfer y gwrandawiad rhagarweiniol ar gyfer ei hail achos. Mae'r barnwr wedi gwrthod derbyn tystiolaeth arbenigwyr ac wedi gwrthod caniatáu i dystiolaeth fideo hollbwysig fynd ger bron y llys. Gwrthodwyd cais am adolygiad barnwrol hefyd. Dywedodd *Ireland on Sunday*: *"Mae'n ffodus nad yw Mary Kelly yn perthyn i al-Qaeda neu mi fyddai Maes Awys Shannon yn agen losg erbyn hyn."*

### Ymateb moesol a gwleidyddol

Cafodd Fintan Lane o Ymgyrch Cork yn erbyn y Rhyfel, ei ryddhau o garchar Limerick ym mis Ionawr ar ôl 45 diwrnod o ddedfryd o 60 diwrnod am gymryd rhan mewn tresmasiad yn erbyn y rhyfel yn y maes awyr ym mis Hydref 2002. Ar ôl cael ei ryddhau, dywedodd Fintan: "Roedd cymryd rhan yn y tresmasiad torfol yn weithred o gydwybod, a doedd gennyf ddim bwriad talu dirwy am yr hawl i brotestio yn erbyn traflyncu maes awyr sifil Gwyddelig gan beiriant rhyfel yr UD. Mae anufudd-dod sifil yn ymateb moesol a gwleidyddol briodol pan fo bywydau yn y fantol."

### Pum Gweithiwr Pabyddol

Ym mis Ionawr, wynebodd Deirdre Clancy, Nuin Dunlop, Karen Fallon, Damien Moran a Ciaron O'Reilly (y "Pit Stop Ploughshares") ddau gyhuddiad o achosi gwerth $2½ miliwn a 200 Ewro o niwed troseddol yn llys Dulyn. Maent yn wynebu 10 mlynedd o garchar, o bosib, a/neu ddirwy o 10,000 Ewro o dan gyfraith Iwerddon os ceir hwy'n euog.

Mae'r cyhuddiadau hyn yn dilyn eu hymgais ddi-drais i ddiarfogi awyren ryfel llynges yr UD ym maes awyr Shannon ar y 3ydd o Chwefror 2003. Meddai Ciaron O'Reilly: *"Mae nifer yr Iraciaid a anafwyd ac a laddwyd yn dal heb eu cyfrif, chwalwyd eu cymdeithas sifil ac ysbeiliwyd ei his-adeiledd gan gorfforaethau'r UD. Rydym ni, fel llawer o wrthwynebwyr rhyfel eraill yn yr UD, Prydain ac Israel, ger bron llys am ddweud y gwir wrth rym drwy wrthod cydweithredu yn ddi-drais. Mae maes awyr Shannon yn dal i fod yn stop danwydd ar ffordd peiriant rhyfel yr UD!"* Cyflawnodd y Gweithwyr Pabyddol sawl gweithred arall ym maes awyr Shannon yn 2003, yn cynnwys creu cysegrfa i goffáu meirwon Irac a phlannu gwely o datws ger y llain glanio.

### Her Gyfansoddiadol

Heriodd Edward Horgan (cyn-Gadlywydd yn Myddin Iwerddon) benderfyniad llywodraeth Iwerddon i ganiatáu i luoedd yr UD ddefnyddio maes awyr Shannon ac awyrofod Gwyddelig yn eu rhyfel yn erbyn Irac. Er na lwyddodd, dyfarnodd barnwr yr Uchel Lys 50 y cant o gostau Edward Horgan iddo a dyfarnu fod yn rhaid i'r llywodraeth dalu ei chostau ei hun oherwydd fod Edward Horgan wedi "llwyddo i godi egwyddor yn y gyfraith ryngwladol arferol sy'n mynnu y dylai gwladwriaethau niwtral wrthod caniatáu i niferoedd mawr o filwyr a chadoffer un wladwriaeth ryfelgar deithio drwy ei thiriogaeth ar ei ffordd i ryfel gyda gwladwriaeth arall." Meddai Edward Horgan: *"... Ofnaf fod cydbwysedd pwer yn gogwyddo'n rhy bell o blaid y Llywodraeth, ar draul y Llys ac, yn y pen draw, ar draul dinasyddion Iwerddon.... Un canlyniad, i'm tyb i, yw y bydd y Llywodraeth bellach hyd yn oed yn fwy agored i bwysau gan Wladwriaethau cryfach i gydweithredu â nhw ar adegau o argyfwng ac i dorri'r gyfraith ryngwladol heb unrhyw lyffethair Cyfansoddiadol. Mae'r gyfraith ryngwladol yn adlewyrchu'r safonau ymddwyn y cydnabyddir yn gyffredinol eu bod yn angenrheidiol i barhad gwareiddiad mewn byd peryglus. Os tanseilir y safonau hynny, rydym i gyd ar ein colled." "Rhaid i Iwerddon, gan iddi gynorthwyo'r lluoedd ymosodol, dderbyn ei chyfran o'r cyfrifoldeb am y bomiau clwstwr a'r taflegrau a ollyngwyd ar bobl Irac."*

**heddweithredu:**

I ddangos cefnogaeth, neu am fwy o wybodaeth:

Eoin Dubsky, Whitewalls, Ballymoney, Gorey, Co. Wexford, Iwerddon tel: +353 (0)55-25176, neu +353 (0) 87-6941060 ebost: slack@ redbrick.dcu.ie

Ymgyrch Heddwch Shannon: 19 Inis Ealga, Shannon, Co. Clare, Iwerddon tel: +353 (0)61-365871 www.shannonpeacecamp.org

Mary Kelly: d/o Orla Ni Chomhrai : nichomhrai@eircom.net neu Newpal@eircom.net neu Aoife Ní Fhearghail +353 (0) 87 7955013

Mae gweithredoedd Pit Stop Ploughshares wedi denu sylw mawr ym mhedwar ban y byd: Pit Stop Ploughshares, Catholic Worker Cottage, 53 Rialto Cottages, Rialto, Dulyn, Iwerddon + 353 (0) 87 918 4552 ciaronx@hotmail.com www.ploughsharesireland.org

Karen yw'r unig aelod Prydeinig o Pit-Stop Ploughshares. Mae'n aelod o Trident Ploughshares a Gwersyll Heddwch Faslane sydd eisoes wedi treulio tri mis yng Ngharchar Limerick. Mae amodau mechnïaeth caeth wedi ei gorfodi i aros yn Iwerddon tan yr achos llys. Cyfraniadau tuag at gostau Karen yn Iwerddon yn daladwy (punnoedd) i: "Karen Fallon", d/o Graham Kayes, Faslane Peace Camp, Shandon, nr. Helensburgh, G84 8NT. Gellir danfon llythyron o gefnogaeth at Karen yn 24 The Spinnaker, Alverno, Castle Ave., Clontarf, Dulyn 3, Iwerddon.

Edward Horgan: Conor Joyce tel: +353(0) 86-6039 143 ebost:conor.joyce@oceanfree.net

## Dydd Martin Luther King

# Pwyntio bysedd at daflegrau cyfeiriedig a dynion digyfeiriad yn UDA

Llwyddwyd i rwystro'r fynedfa i ganolfan arfau niwclear Trident Llynges yr UD ym Mangor, UDA gyda model maint-llawn o daflegryn Trident D-5 yn ystod gwrthdystiad yn coffáu bywyd Dr. Martin Luther King ar Ionawr 17eg. Roedd baner hir yn dwyn dyfyniadau o waith Dr. King yn cynnwys y geiriau:

*"Pan fydd pŵer gwyddonol yn drech na phŵer moesol, y pen draw yw taflegrau cyfeiriedig a dynion digyfeiriad."*

Roedd y gwrthdystwyr yn cario ffigyrau mawr cardbord hefyd, yn cynrychioli ysbytai, ysgolion a gwasanaethau cyhoeddus, i ddangos sut y dylid defnyddio adnoddau a thechnoleg i ateb gofynion sylfaenol y ddynolryw yn hytrach na'u defnyddio i ddibenion rhyfel.

Mae canolfan llongau tanfor Trident Bangor 15 milltir i'r gorllewin o Seattle ar arfordir gorllewinol UDA, a dyma gartref Môr Tawel naw llong danfor Trident a 1,760 o ergydion niwclear. Ar hyn o bryd, mae'r ganolfan wrthi'n addasu llongau tanfor i dderbyn y system daflegrau Trident D-5, a gosod taflegrau criws Tomahawk ar bedair llong danfor Trident hyn.

Restiwyd deuddeg o'r gwrthdystwyr. Mae erlynwyr lleol wedi methu sicrhau dedfrydau euog yn erbyn gweithredwyr di-drais a gafodd eu restio ym Mangor yn sgîl tair gweithred flaenorol a thri achos llys gan y darganfuwyd fod gan y diffynyddion hyn hawl gyfreithiol i unioni cam o dan gyfraith Ryngwladol a chyfraith yr UD drwy weithredu uniongyrchol di-drais.

Yn ystod y weithred yma, roedd aelodau o Ganolfan Ground Zero dros Weithredu Di-drais yn cofio'u ffrind a'u cydymgyrchydd, Jackie Hudson, a ddedfrydwyd ar y 25ain o Orffennaf 2003 i ddwy flynedd a hanner o garchar am wrthdystiad ger silo taflegrau niwclear Minuteman III yn Colorado. Mae'r ymgyrchwyr yn neilltuol o ddiolchgar i'r Feteran dros Heddwch a orweddodd yn ffordd car oedd yn gyrru tuag at y gwrthdystwyr ar y ffordd fawr. Mae'n bosib fod ei weithred ddi-drais wedi arbed eraill rhag niwed.

**Bydd y weithred uniongyrchol nesaf ym Mangor ar Sul y Mamau, 9fed Mai 2004.**



# Northwood, Lloegr
# Drama ger craidd milwrol Prydain

Bu gweithredwyr heddwch yn coffáu Rhyfel y Gwlff 1991, 13eg blynedd yn ôl, a Dydd Martin Luther King gyda chyfres o brotestiadau theatrig byr tu allan i bencadlys milwrol Prydain yn Northwood, Llundain.

Roedd y protestiadau, gyda chymorth amrywiaeth eang o gymeriadau lliwgar yn cynnwys Margaret Thatcher, Tony Blair a Jeremy Paxman, yn ogystal â lleisiau rhai o ddioddefwyr a goroeswyr rhyfeloedd Prydain, yn archwilio swyddogaeth Northwood yn rhyfel Ynysoedd Falkland (1982), cyrchoedd bomio Serbia a Kosovo (1999) a'r ymosodiad ar Afghanistan (2001) ac Irac (1998 a 2003). Roedd y diweddglo'n dathlu gweledigaeth amgen o ddyfodol lle na fydd angen swyddogaeth drefnu rhyfel Northwood mwyach. Roedd hyn yn cynnwys digwyddiad aml-ffydd ar weithredu di-drais dros gyfiawnder a rhyddid.

Dywedodd Andreas Speck, a helpodd i drefnu'r digwyddiad, 'Mae'r rhyfel yn erbyn Irac yn y gorffennol, ond goresgyniad Irac yw'r presennol gwaedlyd. Ar yr un pryd, mae'r gwleidyddion a'r lluoedd arfog wrthi'n trefnu cyrchoedd newydd mewn "theatrau" ym mhedwar ban y byd. Ar adeg fel hon, mae protestio y tu allan i sefydliadau milwrol yn bwysig oherwydd maen nhw'n dangos nad mewn gwledydd tramor yn unig mae rhyfel yn cael ei ymladd ond mai rhyfel, a threfniadau ar gyfer rhyfel, yw gwaith beunyddiol staff milwrol led led y DU.'

heddweithredu:

**Cysyllter â: Ground Zero for Nonviolent Action: +1 360 377 2586 ebost: info@gzcenter www.gzcenter.org**

**Y 15fed o Ionawr yw Dydd Martin Luther King. Am restr o ddigwyddiadau'n dathlu genedigaeth King, yr ymgyrchydd mawr dros heddwch a chyfiawnder, gweler http://www.unitedforpeace.org/calendar.php?caltype=16**

**Am fwy o wybodaeth am graidd milwrol Prydain yn Northwood (yn cynnwys map) gweler http://www.reclaimthebases.gzzzt.net/nbases_0.html**

# Globaleiddio

**Yn ôl ein harweinwyr gwleidyddol, mae globaleiddio i fod i helpu pobl dlawd. Diddorol felly edrych o ble y daeth globaleiddio ac i ble mae'n mynd.**

### Y marchnadoedd arian

Deilliodd globaleiddio o ryfel, Rhyfel Fietnam, yn benodol. Gan na allai'r UD dalu am y rhyfel o'i choffrau ei hun, roedd arni angen cyflenwad rheolaidd o arian o ffynonellau eraill. Arweiniodd hyn at newid trefniadau Bretton Woods – cyfundrefn o gyfraddau cyfnewid arian sefydlog – i gyfraddau cyfnewid a oedd yn arnofio a marchnadoedd cyfnewid tramor. Tyfodd y rhain yn anferthol, o $15 biliwn y dydd ym 1973, i $1,500 biliwn (triliwn a hanner) heddiw. Hapfasnachu yw 98 y cant o hyn; dim ond 2 y cant ohono sydd ei angen ar gyfer taliadau masnach.

### Masnach yn crebachu

Mae rhai wedi herio'r boll syniad. Mae rhaid ysgolheigion wedi nodi fod masnach fyd-eang yn is ar gyfartaledd heddiw nag ydoedd cyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Maen nhw'n dadlau mai masnach rhwng tri bloc yw masnachu byd-eang, go iawn – yr UD, Ewrop a Japan. Gellir ychwanegu at y rhain 11 o wledydd sy'n datblygu sydd wedi elwa ar dwf allforion ar ffurf Buddsoddi Tramor Uniongyrchol.

### China

Er gwaethaf yr amheuon yma, mae rhywbeth radical wedi digwydd yn y ddau ddegawd diwethaf. Mae rhai pobl yn dweud fod globaleiddio yn gweithio yn China. Mae GDP China wedi tyfu o 9 y cant y flwyddyn ar gyfartaledd ers 20 mlynedd. Defnyddiodd ei chyfoeth economaidd newydd i godi 250 miliwn o bobl allan o dlodi. Llynedd, goddiweddodd China yr UD fel y wlad sy'n denu fwyaf o Fuddsoddi Tramor Uniongyrchol. Cyflawnodd China'r twf aruthrol hyn heb ddilyn fformiwla'r IMF a Banc y Byd, y consenswS Washington bodigrybwyll, gyda'i breifateiddio, torri gwasanaethau cyhoeddus ac agor marchnadoedd. Mae China wedi bod yn ofalus gyda rhwystrau masnach, wedi agor ei marchnadoedd fel y gwêl hi'n dda, ac wedi osgoi agor ei sector ariannol, gan lwyddo felly i osgoi'r hapfasnachwyr.

### Yr UD a buddiannau trawswladol

Mae globaleiddio'n broses sydd wedi cael ei llunio'n wleidyddol i ddiogelu buddiannau'r UD, a buddiannau corfforaethau traws-wladol yn gyffredinol. Mae'r nodau hyn wedi cael eu cyflawni mewn gwledydd tlawd drwy raglenni o adnewid strwythurol, wedi eu llunio gan yr IMF, a'u cyllido gan Fanc y Byd a'r gwledydd cyfoethog. Cafodd y polisïau hyn gefnogaeth lawn y llywodraeth Lafur Brydeinig. Mewn gwirionedd, mae'r sefydliadau amlochrog, yr IMF, Banc y Byd a'r WTO, yn gaeth i agenda'r corfforaethau traws-wladol, y mae'r 200 mwyaf yn eu plith erbyn hyn yn rheoli chwarter cyfoeth y byd.

### Amcanion ariannol

Sefydlwyd yr IMF a Banc y Byd ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd. Y bwriad oedd y byddai'r IMF yn helpu i ddod â sadrwydd ariannol byd-eang, a byddai Banc y Byd yn darparu benthyciadau, yn gyntaf i wledydd oedd yn ailadeiladu ar ôl rhyfel, ac yna i dalu am ddatblygiad yn y gwledydd ôl-drefedigaethol.

### Methiant yr IMF

Methodd yr IMF yn llwyr yn hyn o beth. Nid ydyw wedi gallu atal mwy na 100 o argyfyngau ariannol yn ystod y chwarter canrif ddiwethaf. Wedi cyngor gan yr IMF ym 1997, arweiniodd argyfwng ariannol Dwyrain Asia at ddiweithdra pedair gwaith yn uwch yn Korea, teirgwaith yn uwch yn Thailand, a deng gwaith yn uwch yn Indonesia. Disgynodd GDP Indonesia o 13.1 y cant, ac eiddo Thailand o 10.8 y cant. Dilynodd Rwsia, wrth ymryddhau o weddillion yr hen ymerodraeth Sofietaidd, gwrs therapi sioc yr IMF er mwyn cyflwyno'r 'farchnad' i'r wlad a'i dinasyddion. Prin fod neb ohonom yma yn amgyffred hyd a lled y drasiedi sydd wedi traflyncu Rwsia ers hynny. O 1940 i 1946, yn ystod rhyfel pan fu farw 20 miliwn o ddinasyddion Sofietaidd, gostyngodd cynhyrchu diwydiannol o 24 y cant. O 1990 i1999, gostyngodd cynhyrchu diwydiannol o 60 y cant. Mae disgwyliadau hyd bywyd wedi lleihau o dair blynedd.

### Methiant Banc y Byd

Mae record Banc y Byd yr un mor druenus. Tra'r oedd traean poblogaeth Dwyrain Timor yn Indonesia yn cael eu lladd, roedd Banc y Byd yn darparu gwerth $360 miliwn o gyllid ar gyfer 'trawsfudo' o ynysoedd eraill Indonesia i Ddwyrain Timor, i danseilio'r boblogaeth leol. Mae'r IMF a Banc y Byd wedi methu ar ddyled hefyd. Ym 1999, roedd menter Gwledydd Tlawd mewn Dyled Enbyd (GTDE), a drefnwyd gan y ddau sefydliad, yn mynd i ddatrys argyfwng dyled y gwledydd tlotaf. Addawodd y gwledydd cyfoethog y byddent yn dileu gwerth $110 biliwn o ddyled, a chyhoeddwyd dechrau newydd. Hyd yn hyn, dim ond $36 biliwn sydd wedi cael ei ddileu.

### Sefydliad Masnach y Byd (WTO)

Sail y trydydd 'cawr' rhyngwladol, y WTO, yw 12 o gytundebau masnach gwahanol. Methodd ei uwch-gynhadledd ddiweddar yn Cancun, am nifer o resymau. Yn gyntaf, safodd grwp o 23 o wledydd, dan arweiniad Brasil, China ac India, yn gadarn yn erbyn gosod materion newydd ar yr agenda. Yn eilbeth, gwrthwynebai gwledydd Affrica i'r modd mae ei diwydiant amaethyddol yn dal i gael ei ddarnio. Pan geisiodd yr UE orfodi eitemau newydd ar yr agenda, ymatebodd cynrychiolydd o Zambia yn gynddeiriog, gan ddweud 'Pa ran o "Na" dydyn nhw ddim yn ei ddeall?'. Dywed War on Want mai agwedd anghymodlon y gwledydd cyfoethog oedd ar fai am fethiant y cyfarfod. Dangosodd arolwg o gynrychiolwyr o'r gwledydd sy'n datblygu fod 83 y cant ohonynt yn credu "nad ydy'r WTO yn ddemocrataidd".

### Nodau datblygu

Bedair blynedd yn ôl, cyhoedd y pwerau mawr Nodau Datblygu Mileniwm y CU, 'ffrwyth' globaleiddio sydd i fod i haneru tlodi, newyn, anllythrennedd, ac ati. Heddiw, mae 54 o wledydd yn dlotach nag yr oedden nhw ym 1990; mae cyfran fwy yn newynu mewn 21; mewn 14, mae nifer fwy o blant yn marw; mewn 12 o wledydd, mae llai a llai o blant yn cofrestru mewn ysgolion; mewn 34, mae disgwyliadau hyd bywyd wedi gostwng. Hyd yn oed gyda thwf economaidd, mae tlodi wedi cynyddu mewn rhai gwledydd. Mae anghydraddoldeb wedi cynyddu mewn 33 o 66 gwlad. Ym mis Hydref llynedd, cyhoeddodd y CU fod y nifer sy'n newynu wedi dechrau cynyddu eto, o 815 miliwn yn 2001 i 840 miliwn yn 2002. Mae plentyn yn marw bob saith eiliad.

### Delwsiadau amgen

Yr IMF, Banc y Byd a'r WTO yw llawforynion globaleiddio, a dylid eu diddymu. Mae digon o gyrff eraill a allai gymryd eu lle. Un o'r sefydliadau allweddol o fewn y CU sydd wedi cael ei anwybyddu gan y WTO yw UNCTAD. Mae'r corff hwn yn dal yn amheus ynglyn a dadreoleiddio, gan ddweud 'mae effeithiolrwydd y diwygiadau economaidd mae cymaint o fywydau a bywoliaethau yn dibynnu arnynt bellach yn weithred o ffydd, ac felly y bydd, o anghenraid.' Gallai UNCTAD cryfach gadw rheolaeth ar gorfforaethau traws-wladol. Proses o ddadreoleiddio neu, yn wir, rheoleiddio gwledydd er budd y cwmnïau fu globaleiddio erioed. Dyna pam mae materion sydd heb ddim cysylltiad â masnach, fel hawlfraint eiddo deallusol a buddsoddi, yn rhan o'r WTO. *Yr hyn sydd ei angen yw rheoli cwmnïau er budd gwledydd a'u dinasyddion.*

Awgrymwyd ailsefydlu Corff Masnach Rhyngwladol dan nawdd Cyngor Economaidd a Chymdeithasol y CU i gymryd lle y WTO. Mae Colin Hines wedi awgrymu Sefydliad Lleoleiddio'r Byd, ac mae George Monbiot wedi awgrymu Sefydliad Masnach Deg. Mae Monbiot yn cynnig Undeb Clirio Rhyngwladol hefyd, i gymryd lle'r IMF. Mae hyn yn dod â ni yn ôl at syniadau gwreiddiol Keynes ar gyfer Bretton Woods.

### Tra-arglwyddiaeth yr UD

Rhag ofn eich bod chi'n credu y gellir gwneud i globaleiddio weithio o blaid y tlodion, ystyriwch ddwy farn, i gloi. Mae Cyngor Cudd-ymchwil Cenedlaethol yr UD wedi disgrifio ei ddisgwyliadau ynglyn â globaleiddio yn ddiweddar: *"Bydd ei esblygiad yn arw, wedi ei nodweddu gan anwadalrwydd ariannol cronig, a bwlch economaidd a fydd yn ehangu."* Mae awdurdodau milwrol yr UD, yn y ddogfen anfad 'Space Command's Vision for 2020', a gyhoeddwyd o dan Clinton, yn dweud ei bod hi'n angenrheidiol tra-arglwyddiaethu ar y gofod oherwydd byddai *'globaleiddio economi'r byd'* yn arwain at *'ehangu'r bwlch rhwng y rhai sydd â digon a'r rhai sydd heb ddim.'* Prin y gellid mynegi'r peth yn gliriach.

**Ben Gregory**

**Mae'r erthygl hon yn seiliedig ar anerchiad a draddododd Ben i Gynhadledd Ddiwygio'r Cenhedloedd Unedig yn Aberystwyth ym mis Tachwedd 2003. Mae'r testun llawn ar gael ar benica@gn.apc.org**

# Newyddion heddwch a chyfiawnder o Fangor ac Ynys Môn

Yn ystod hydref 2003 a dechrau 2004 mae'r Grup Heddwch a Chyfiawnder wedi cynnal cyfarfodydd wythnosol ym Mangor, rhedeg stondinau, deisebu a pharhau i bwyso ar Albert Owen AS (Llafur, Ynys Môn).
Yn yr hydref cynhaliwyd gwrthdystiad ym Mangor yn erbyn Wal Israel, gyda myfyrwyr a gweithredwyr eraill a oedd newydd ddychwelyd o Balesteina yn annerch y cyhoedd wrth i ffens ddur uchel gael ei chodi o'u cwmpas nhw a Chloc y Twr. Mynychodd cynulleidfa fawr ac uchel ei chloch ddadl ym mis Tachwedd ar ddyfodol cysylltiadau rhyngwladol, gyda Malcolm Harper (Cadeirydd CCU) a Syr Harold Walker (cyn-lysgennad Prydain i Irac). Mae'r grwp wrthi'n gweithio ar hyn o bryd gyda Chanolfan Islamaidd Bangor i ddarparu cymorth ar gyfer dioddefwyr y daeargryn yn Bam, yn Iran. Mae ymgyrchu ar ran carcharorion Belmarsh a Guantanamo yn flaenoriaeth.

Mae digwyddiadau i ddod yn cynnwys darlith, *Building Bridges in Bosnia* gan Donald Reeves, nos Lun 26ain Ionawr am 6.00pm, Darlithfa 3, Prif Adeilad y Celfyddydau, Prifysgol Cymru Bangor. Cynhelir cyfarfodydd ymgyrchu'r grwp bob nos Lun am 6.30pm yn Y Ffynnon, drws nesaf i'r Gaplaniaeth Anglicanaidd, Ffordd y Tywysog, Bangor Uchaf, ac mae croeso i bawb.
Mae'r ffordd wleidyddol ymlaen yn dal i fod yn destun trafod rhwng aelodau'r grup. Mae diddordeb yn y cyfarfod Galloway-Monbiot a gynhelir yn Llundain ar Ionawr 25ain a hefyd yn y mudiad Heddwch a Chynnydd, sydd wedi sefydlu'r Comisiwn Hawliau Dynol sydd wrth ar hyn o bryd yn ymchwilio i gyfreithlondeb y carcharu yn Guantanamo yn UDA. Mae Heddwch a Chynnydd yn trefnu symposiwm, *Internment without Trial*, yn Llundain ar y 15fed o Chwefror ac mae'n bwriadu trefnu un arall yn Aberystwyth ar yr 20fed o Fawrth, ar y cyd ag CND Cymru a Rhwydwaith Heddwch Aberystwyth, fel rhan o'r Diwrnod Gweithredu Byd-eang. Mae'r manylion yn dal i gael eu trefnu (ffoniwch Linda Rogers (01248) 490 715 am wybodaeth bellach).

*(tudalen 14)* **Globaleiddio: Beth yw'r holl lythrennau?**

**GDP** Cynnyrch Mewnwladol Crynswth
**UD** Unol Daleithau America
**IMF** Y Gronfa Ariannol Ryngwladol
**WTO** Sefydliad Masnach y Byd
**UNCTAD** Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Fasnach a Datblygiad
**CU** Y Cenhedloedd Unedig

# Bydd Vanunu yn rhydd cyn bo hir!

Mae Mordechai Vanunu, y cyn-dechnegydd niwclear o Israel, yn awr ym mlwyddyn olaf dedfryd o 18 mlynedd o garchar am ddatgelu rhaglen arfau niwclear ddirgel Israel. Ar ôl cael ei ddal gan heddlu cudd yr Israeliaid ar y 30ain Medi 1986, treuliodd fwy nag un mlynedd ar ddeg a hanner mewn cell ar ei ben ei hun, heb gael gweld neb arall.

Yn ddyn ifanc, aeth Vanunu i weithio yng 'nghanolfan ymchwil' niwclear Dimona yn Anialwch y Negev. Roedd y ganolfan yn cynnwys gwaith gwahanu plwtoniwm cwbl gyfrinachol. Aeth yn fwyfwy o ofid i Vanunu fod ei waith yn rhan o raglen bomiau niwclear Israel. Ym 1985, tynnodd nifer helaeth o ffotograffau o'r tu fewn i'r ffatri er mwyn dogfennu'r gwirionedd ar gyfer ei gyd-ddinasyddion a'r byd i gyd, ac yna gadawodd Dimona.

Clywodd y *Sunday Times* am ei hanes, a danfonodd ohebydd i ymweld ag ef. Yn Lloegr, bu gwyddonwyr Prydeinig oedd yn gyfarwydd ag arfau niwclaer wrthi'n gwirio ei luniau a'i ffeithiau. Roedd 'Vanunu's story', a gyhoeddwyd ar y 5ed o Hydref 1986, yn cadarnhau'n awdurdodol fod gan Israel bellach nifer fawr o arfau niwclear, gyda digon o ddefnydd ar gyfer cymaint â 200 o'r ergydion niwclear diweddaraf. Cafodd Vanunu ei gipio gan heddlu cudd Israel a roddodd gyffuriau iddo, a'i ddwyn yn ôl i Israel lle cafwyd ef yn euog o ysbïo a brad mewn achos llys y tu ôl i ddrysau caeëdig.

Am yr un flynedd ar ddeg a hanner cyntaf yn y carchar, cadwyd Vanunu ar ei ben ei hun, ac ni chafodd weld yr un enaid byw arall. Ers y 12fed o Fawrth 1998, mae wedi cael ei ryddhau o gaethiwed ar ei ben ei hun, ond mae'r awdurdodau'n dal i wahardd unrhyw gysylltiad â charcharorion Palestinaidd, dydy e ddim yn cael defnyddio'r ffôn ac mae ei lythyron yn cael eu sensro.

Er gwaethaf y blynyddoedd o unigrwydd llwyr, mae Vanunu yn dal i gredu'n gadarn fod yr hyn a wnaeth yn angenrheidiol ac yn iawn. Bydd yn cael ei ryddhau ar yr 22ain o Ebrill 2004.

heddweithredu:

**Ar y 13eg o Fawrth, 3ydd o Ebrill, 13eg o Ebrill, bydd CND Cymru, CND Caerffili a Chôr Cochion Caerdydd yn cynnal Gwylnos Ganu Wythnosol i gasglu arian ar gyfer deiseb yr ymgyrch hyd oni fydd Vanunu wedi ei ryddhau. Am fwy o wybodaeth, ffoniwch: (02920) 889 514**

**Yr Ymgyrch i Ryddhau Vanunu ac o blaid Dwyrain Canol Di-niwclear, 185, New Kent Road, Llundain SE1 4AG ffôn: (020) 7378 9324 campaign@vanunu.freeserve.co.uk**




# Mudiad y Fforwm Gymdeithasol yng Nghaerdydd

Lansiwyd Fforwm Gymdeithasol Caerdydd (FfGC) o Glymblaid De Cymru i Atal y Rhyfel ym mis Mai 2003. Rhwydwaith ydyw ar gyfer gweithredwyr o blaid cyfiawnder cymdeithasol ac yn erbyn tra-arglwyddiaeth gorfforaethol fyd-eang, ar batrwm fforymau cymdeithasol yr Eidal, a adeiladodd y gwrthdystiadau anferth yn erbyn G8 yn Genoa. Mae'r fforwm yn fan trafod ac addysgu ac mae'n cynllunio gweithredoedd ac yn trefnu gweithdai ymarferol. Mae'n ddemocrataidd ei ddulliau ac yn agored i bob unigolyn a grwp sy'n rhannu ei hamcanion.
Ers ei lansio, bu FfGC yn gweithio tuag at uwchgynhadledd G8 yn Evian, Ffrainc, a threfnodd ddigwyddiadau cyfochrog yng Nghaerdydd. Ym mis Medi 2003 chwaraeodd FfGC ran yn y gwrthdystiadau yn erbyn ffair arfau'r 'DSEi' yn Llundain a chwaraeodd ran ganolog yn y brotest yn erbyn arddangosfa ofod ac awyrofod 'MRO' yn Arena Ryngwladol Caerdydd.
FfGC oedd y Fforwm Gymdeithasol gyntaf ym Mhrydain ac mae'n dal yn y rheng flaen o ran creu cysylltiadau rhwng fforymau a chefnogi sefydlu rhai newydd. Ar y 1af Chwefror, trefnodd FfGC "Gynulliad Angen", diwrnod o weithdai ymgyrchu a chyfle i bobl o'r un tueddfryd i ddod ynghyd a helpu i uno ymgyrchoedd yng Nghaerdydd a'r cylch.

**Fforwm Gymdeithasol Ewrop (FfGE)**

Diolch i Monica Bradley, roedd gan CND Cymru gynrychiolaeth yn FfGE yr hydref pan wnaeth 60,000 o bobl ymgynnull ym Mharis. Roedd gan CND stondin a chymerodd ran mewn gweithdai ar filitariaeth a heddwch.

heddweithredu:

**Diddordeb? Cysylltwch â Fforwn Gymdeithasol Caerdydd www.cardiffsocialforum.org.uk**

# Wraniwm hesb (WH)
# Llygredd Plwtoniwm
## (neu sut i beidio ag ymdrin â gwastraff niwclear)



**Sut yn y byd y cyrhaeddodd plwtoniwm Kosovo? Mae elfennau trawswranaidd fel plwtoniwm yn cael eu ffurfio mewn adweithyddion niwclear, ac nid ydynt yn bod yn naturiol yng nghramen y ddaear.**

Pan ddaeth Rhaglen Amgylcheddol y CU o hyd i olion plwtoniwm a gronynnau eraill ymbelydrol dros ben yn Kosovo, cyfaddefodd y Weinyddiaeth Amddiffyn ac adran ynni'r UD fod y deunydd wedi dod o ffrwydron WH ond maent yn gwadu fod yr wraniwm wedi ei ailbrosesu. Roedd yr wraniwm wedi "cael ei lygru'n ddamweiniol" mewn cynwysyddion yn dal defnyddiau wedi eu hailbrosesu.[1] Ddeufis yn ddiweddarach, cyfeiriodd adroddiad Rhaglen Amgylcheddol y DU ar safleoedd yn Bosnia at "amrywiadau anferth" mewn lefelau plwtoniwm mewn darnau o ffrwydron y daethwpyd o hyd iddynt.

### Beth yw WH?

Doedd dim angen eglurhad fel "llygru damweiniol" erbyn mis Tachwedd 2001. Comisiynodd Asiantaeth yr Amgylchedd adroddiad o'r enw "Wraniwm Hesb: Astudiaeth o'r Ddefnydd o fewn Prydain a Phroblemau Cael Gwared ohono".[2] Ym mharagraff agoriadol disgrifiad cyffredinol o wraniwm hesb dywedodd yr adroddiad "Wraniwm hesb ... yw prif sgîl gynnyrch y broses o gyfoethogi wraniwm, lle cynyddir lefel yr isodeip ymholltol U235 mewn perthynas â'r cynnwys U238. Cynhyrchir WH hefyd drwy ailbrosesu tanwydd o adweithyddion Magnox ym Mhrydain." Ymddangosodd diffiniad estynedig cyffelyb o WH ym mis Medi 2001 pan gyhoeddodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig gynigion polisi ar gyfer ymdrin â gwastraff ymbelydrol.[3]

### Defnydd milwrol

Mae gan WH ddwysedd 1.7 gwaith yn fwy na phlwm. Mae'r wenwynig yn ogystal â bod ychydig yn ymbelydrol, gyda hanner-bywyd o 4.5 biliwn o flynyddoedd. Er ei fod yn wenwynig ac yn gallu achosi canser a gwyriadau genetig, cafodd yr awdurdodau milwrol ei fod yn ddefnyddiol o ran galluogi bwledi a ffrwydron i dreiddio ymhellach a hyd yn oed i gryfhau arfogaeth cerbydau arfog. Cafodd ffrwydron WH eu tanio mewn profion ym Mhrydain ac UDA yn y 1980au, a chawsant eu defnyddio yn Irac ym 1991, yn Bosnia ym 1996, yng ngwrthdaro Kosovo ym 1999, yn Afghanistan yn 2002 ac yn Irac yn 2003. Amcangyfrifwyd y defnyddiwyd 340 tunnell fetrig o WH yn Rhyfel y Gwlff 1991. Yn ymosodiad 2003 ar Irac, mae'n bosib y defnyddiwyd hyd at 2000 tunnell gyda hyd at 7 tunnell ym mhob bom "chwalu byncar" unigol.

### Peryglon i iechyd

Mae mudiadau aelodau'r lluoedd arfog ac eraill sy'n ymddiddori yn iechyd y lluoedd arfog a sifiliaid wedi holi ynglyn â chanlyniadau presenoldeb defnyddiau ymbelydrol a gwenwynig ar faes y gad, y gellid eu hanadlu i mewn fel llwch neu eu llyncu gyda bwyd.[4] Roedd ymateb y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ddiamwys. Roedd y peryglon yn ddibwys, ac eithrio pe bai person yn aros am gyfnod maith mewn cerbyd a drawyd gan arfau o'r fath, a gwadodd y Weinyddiaeth ganlyniadau gwrthwynebus ei adroddiad ei hun, a ddatgelwyd heb awdurdod, gan ddweud mai "drafft di-sail ydoedd a baratowyd gan berson dan hyfforddiant."[5] Ond cymerodd ymchwilwyr annibynnol samplau gan filwyr a awgrymai eu bod wedi llyncu 15 gwaith yr hyn a ddisgrifir gan y Weinyddiaeth fel "dos ddiogel" o ymbelydredd. Mae'r rhan fwyaf o ffisegwyr yn cytuno nad oes y fath beth â "dos ddiogel". Galwodd gwyddonwyr Rhaglen Amgylcheddol y CU am gasglu dryllìau o WH o feysydd cad. Galwodd y Gymdeithas Frenhinol hithau am samplu, glanhau a monitro.[6]

### Lliniaru problemau

Yn ei lyfr *Sixty Years of Nuclear History*, a gyhoeddwyd ym 1999, dywedodd Fred Roberts, cyn-wyddonydd bomiau atomig, fod WH yn gynnyrch ailbrosesu tanwydd hesb o adweithyddion niwclear.[7] O fewn ychydig fisoedd, dyma Paul Brown, gohebydd amgylchedd y *Guardian*, ar ôl trafod y mater gyda staff y Weinyddiaeth Amddiffyn (ond heb eu dyfynnu), yn disgrifio WH fel cynnyrch ailbrosesu.[8] Roedd y gwirionedd ofnadwy yn hysbys. Roedd y diwydiant niwclear a'r Weinyddiaeth Amddiffyn nid yn unig wedi dod o hyd i ffordd newydd o ymdrin â gwastraff niwclear 'naturiol' ychydig yn ymbelydrol, roedd hefyd yn helpu i gael gwared o wastraff o adweithyddion a gweithfeydd ailbrosesu a fyddai'n cynnwys elfennau trawswranaidd, hyd yn oed wedi i beth o'r plwtoniwm gael ei adennill.

### Miliwn o dunelli ac yn cynyddu

Roedd adroddiad Asiantaeth yr Amgylchedd yn amcangyfrif fod ymhell dros filiwn o dunelli o WH yn y byd. Amcangyfrifir y bydd y cyfanswm hwnnw yn dyblu erbyn 2015. Nid dyma'r defnydd mwyaf trafferthus yng ngwastraff y diwydiant niwclear – mae plwtoniwm yn wenwynig, yn ymbelydrol dros ben, ac yn ddefnydd bomiau atomig. Dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol Prydeinig dros Fasnach a Diwydiant y byddai cost rheoli gwastraff niwclear yn Mhrydain yn y dyfodol yn £85,000,000,000.[9] Does neb wedi dyfeisio dull diogel o gael gwared ohono hyd yma. Gallwn fod yn siur na fydd tanio'r defnydd at elynion yn datrys y broblem chwaith.

### 'Amddiffyn' milwyr

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cyfiawnhau defnyddio WH oherwydd y byddai peidio â'i ddefnyddio yn gosod lluoedd arfog Prydeinig mewn mwy o berygl. Does dim dwywaith nad oedd taflegrau cyfeiriedig, technoleg lloeren a bomiau a ffrwydron sy'n gallu treiddio ymhellach yn ffactorau mawr yn yr oruchafiaeth filwrol a drechodd luoedd Irac mewn byr amser. Ond mae defnyddio arfau gwenwynig ac ymbelydrol yn fath o ryfela cemegol a niwclear nad yw'n wahanol i ddenyddio bom niwclear 'brwnt', yr awgrymir y gallai fod yn arf posibl gan frawychwyr. Bydd yr effeithiau ar yr amgylchedd yn para am filoedd o flynyddoedd gyda chenedlaethai lawer yn dioddef effeithiau genetig. Mae angen cytundeb rhyngwladol i wahardd defnyddio'r fath arfau, a gwahardd defnyddio defnyddiau niwclear sifil i ddibenion milwrol, a'r gwledydd sydd yn y safle gorau i sicrhau hynny yw'r Unol Daleithau a Phrydain.

**Christopher Gifford**

### Nodiadau

1. Paul Brown, *Guardian* 18 Ionawr 2001. Dyfynnodd John Large, o Large Associates hefyd, a ddywedodd fod plwtoniwm ganwaith yn fwy peryglus nag wraniwm.
2. *The Environment Agency: Technical Report P3-088/TR* 27tt., gyda 42 o gyfeiriadau, Tachwedd 2001. Alan Martin Associates.
3. 'Managing Radioactive Waste Safely' DEFRA a'r Llywodraethau Datganoledig, Medi 2001. Does gan y ddogfen fawr i'w ddweud ynglyn â defnydd milwrol metel wraniwm, ond diffiniai *wraniwm hesb a ailbroseswyd* fel is-gategori i wraniwm hesb. Mewn ymateb i gynigion DEFRA, ysgrifennais "Mae angen egluro yn awr pa mor fanwl yw'r broses o dynnu defnydd ymbelydrol trawswranaidd o danwydd hesb cyn iddo gael ei ryddhau i'w ddefnyddio mewn ffrwydron, ac ar awdurdod pwy y mae'n cael ei ryddhau. Wrth i ni drafod beth i'w wneud â gwastraff niwclear dyma ni'n dysgu, gyda llaw, fod ei danio at elynion yn ddull cyfreithlon o gael gwared ohono. Dylai'r fath ddefnydd gael ei wahardd gan lywodraeth y DU a thrwy gytundeb rhyngwladol."
4. Gwefan yr Ymgyrch yn erbyn Wraniwm Hesb (CADU) yw http://www.cadu.org.uk - *CADU News* yw info@cadu.org.uk (0161) 273 8293
5. *Guardian*: golygyddol 12/01/01.
6. *The Health Hazards of Depleted Uranium Munitions: Part 1*, Y Gymdeithas Frenhinol, Mai 2001. Cyhoeddwyd Rhan 2 ym mis Mawrth 2002.
7. *Sixty Years of Nuclear History*, Fred Roberts, 1999, Jon Carpenter
8. "Cheap and Lethal Nuclear By-product", Paul Brown, *Guardian* 1/01/01
9. Hansard, Dadleuon Ty'r Cyffredin ar gyfer 18 Hydref 2001, Y gwir Anrhyd. Margaret Beckett AS, Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant.

# Newyddion am bŵer niwclear

## Gorsaf niwclear Hinkley Point B wedi cau lawr . . . eto

*Mae ymgyrchwyr Stop Hinkley* yn mynnu fod gorsaf ynni niwclear Hinkley Point B ar arfordir Gwlad yr Haf yn cael ei dadgomisiynu'r derfynol wedi iddi orfod cael ei chau lawr unwaith eto ar orchymyn asiantaeth yr amgylchedd oherwydd hidlydd ymbelydredd diffygiol yn un o weithdai'r adweithydd. Mae'r ymgyrchwyr yn galw am gefnogaeth gyhoeddus i ffarm wynt West Hinkley sydd â 12 twrbein yn cynhyrchu hyd at 33 megawat.

Rhaid i ni fynd yn gyfrifol am yr ynni rydym yn ei ddefnyddio; rhaid i ni beidio â gadael etifeddiaeth o amgylchedd lawn llygredd a chofadeiliau ymbelydrol dadfeiliedig ar gyfer ein plant. Dylem fod yn cefnogi projectau ynni adnewyddadwy a chefnogi cadwraeth ynni yn weithredol.

**heddweithredu:**

**cysyllter â Stop Hinkley Campaign d/o Jim Duffy (10984) 632 109 / 07968 974 805 Stophinkley@aol.com**
**Fferm Wynt West Hinkley: Yes2wind (01202) 549 090 info@your-energy.co.uk www.your-energy.co.uk**

## Dydy tabledi ddim yn ateb i lwch ymbelydrol

Mae awdurdodau lleol yng nghyffiniau gorsafoedd ynni niwclear yn gwneud cynlluniau i ddosbarthu tabledi potasiwm ïodad i bawb sy'n byw o fewn naw milltir i orsafoedd ynni niwclear. Yng Nghymru, bydd yn rhaid dosbarthu tabledi i bobl sy'n byw ger Oldbury (Lloegr, yr ochr draw i afon Hafren o Gas-gwent), Wylfa (Ynys Môn) a Hinkley (Lloegr, yr ochr draw i Fôr Hafren o'r Barri). Dylid cymryd y tabledi os bydd gorsaf ynni niwclear yn gollwng ymbelydredd, a'r bwriad yw dosbarthu o flaen llaw gan na ellid gwarantu dosbarthu mewn argyfwng. Fodd bynnag, y cwbl mae'r tabledi'n amddiffyn yn ei erbyn yw ïodin ymbelydrol. Ni chynigir amddiffyniad yn erbyn radio-niwclidau eraill. Wrth gwrs, yr unig wir amddiffyniad i'n pobl yw cau'r adweithyddion hyn, a chadw pob cynnyrch ymbelydrol o waith llaw dyn rhag gwenwyno'r biosffer.

**heddweithredu:**

**Os ydych yn fyw o fewn naw milltir i orsaf ynni niwclear, cysylltwch â'ch Cynghorydd lleol i ofyn a ydy'r cynlluniau hyn yn ateb gwirioneddol i'r broblem neu'n ymgais i daflu llwch i'n llygaid.**

## Ukrain

Mae'r Banc Ewropeaidd dros Adeiladu a Datblygu (EBRD), sy'n dyrannu arian cyhoeddus ar gyfer projectau, wedi cyhoeddi ei fod yn ystyried cymryd rhan mewn project gwerth 250 miliwn Ewro i uwchraddio'r adweithyddion niwclear Khmelnitsky 2 a Rivno 4 sydd heb eu cwblhau yn Ukrain, er gwaethaf ". . . diddordeb . . ." yr EBRD ". . . mewn gwneud asesiad effaith amgylcheddol arall ar gyfer cwblhau'r ddau adweithydd."

**heddweithredu:**

**Gofynnwch i'ch ASE (gweler tud. 18) i gysylltu â'r EBRD a mynnu ei fod yn rhoi'r gorau i ymdrechion i ailgychwyn y projectau K2R4; yn lle hynny, dylai fod yn cynorthwyo Ukrain gyda phrojectau eraill yn y sector ynni, yn enwedig mesurau**

## Y gwrthwynebiad i 'Ffrainc Niwclear' yn cynyddu

Yn ddiweddar, mynnodd 15,000 o orymdeithwyr gwrth-niwclear ar strydoedd Paris na ddylai Llywodraerth Ffrainc gefnogi adeiladau Adweithydd Dur dan Wasgedd Ewropeaidd (EPWR) yn y Ffindir. Y bwriad yw y bydd consortiwm, yn cynnwys grwpiau ARVEA sy'n eiddo i'r wladwriaeth Ffrengig, a'r cawr Almaenaidd Siemens, yn adeiladu'r adweithydd am gost o 3 biliwn Ewro. Disgwylir y bydd Ffrainc yn mynd ati cyn hir i adeiladu adweithyddion EPWR i gymryd lle rhai o'i 58 o adweithyddion niwclear .

**heddweithredu:**


**Cysylltwch â'r ffederasiwn o 650 o fudiadau sy'n ymgyrchu yn erbyn adeiladu adweithyddion niwclear newydd yn Ffrainc: Réseau Sortir du nucléaire , 9 rue Dumenge 69004 Lyon, Ffrainc www.sortirdunucleaire.org**

## Chernobyl: gofidiau'n parhau

Ddeunaw mlynedd wedi'r ddamwain niwclear yn Chernobyl ar 26ain Ebrill 1986, mae'r sefyllfa yn y rhanbarth yn gwaethygu.

Mae meddygon Belarus yn dal i nodi effeithiau trychineb Chernobyl ar iechyd y bobl ers 1986, fel a ganlyn:

100% o gynnydd mewn achosion o ganser a lewcemia
250% o gynnydd mewn namau corfforol a renedigaeth
1,000% o gynnydd mewn hunan-laddiad yn yr ardaloedd a lygrwyd
2,400% o gynnydd mewn achosion o ganser y thyroid




"AIDS Chernobyl" yw'r term a ddefnyddir gan feddygon i ddisgrifio afiechydon yn gysylltiedig â'r niwed a wnaed i'r system imiwnedd oherwydd effaithiau'r defnydd ymbelydrol Strontiwm 90. Mae hefyd yn cyfrannu i'r cynnydd yn nifer yr achosion o ganser oherwydd y niwed i system imiwnedd y corff.

Cred meddygon mai'r bygythiad mwyaf i iechyd yw'r ffaith fod caesiwm wedi crynhoi yng nghyrff pobl, sy'n effeithio ar y galon a'r arennau ac sy'n dylanwadu ar y berthynas hormonaidd yn y system mam-baban-brych. Mae newidiadau o'r fath yn y system mam-ffetws yn arwain at feichiogrwydd hwy, cymhlethdodau gyda geni a gyda datblygiad y plentyn wedi ei eni.

Yng Nghymru, mae 359 o ffermydd gyda 180,000 o ddefaid yn dal i fod o fewn yr ardal dan gyfyngiadau sy'n dal wedi ei heffeithio gan lwch ymbelydrol o ddamwain Chernobyl (Hansard *20 Mai 2003*)

**heddweithredu:**

**Mwy o wybodaeth am Broject Plant Chernobyl (gweler isod). Mwy o wybodaeth ynglyn â'r project yng Nghymru: Caerfyrddin: Jean Williams (01267) 236 451; Aberystwyth: Jackie Roberts (01970) 626 724; Dyffryn Teifi: Sarah Grenfell (01559) 362 886**

## Calon Chernobyl

Mae ffilm o'r enw *Chernobyl Heart*, a gynhyrchwyd ac a gyfarwyddwyd gan Mary-Ann De Leo yn manylu ar y dioddefaint sy'n parhau yn sgîl trychineb niwclear 1986, a gallai ennill gwobr am y ffilm ddogfennol orau yng Ngwobrau Oscar yr Academi 2004.

**heddweithredu:**

**Mwy o wybodaeth gan Chernobyl Children's Project, 2 Camden Place, Camden Quay, Cork, Iwerddon ffôn: (+353) 21 450 6411 adiroche@adiccp.org www.chernobyl-ireland**

# dyddiadau dyddiadur

**Mawrth 1af Dydd Gwyl Dewi Hanner canmlwyddiant Dydd Bikini**
Byddwn yn coffáu'r diwrnod er mwyn tanlinellu effeithiau arfau niwclear a galw sylw at y gwaith sy'n parhau er mwyn sicrhau heddwch a chyfiawnder a dileu arfau niwclear o wyneb y ddaear. (stori tud. 11)
Cysyllter â: Japanese Council Against A & H Bombs (Gensuikyo) 2-4-4 Yushima, Bunkyo-ku, Tokyo 113-8464 ffôn: + 81 3 5842 6034 ebost: antiatom@twics.com

**Mawrth 6ed Canolfan Subud, Aberhonddu**
**11.00am Cyngor CND Cymru**
Croeso i bob aelod o CND Cymru a chynrychiolwyr sydd wedi talu eu tanysgrifiad. Dilynir gan ginio i bawb ac yna **2.00pm Cyfarfod Cyhoeddus: 'Polisi Arfau Niwclear Heddiw' dan arweiniad Kate Hudson (Cadeirydd CND Prydeinig) CROESO I BAWB, aelodau neu beidio!** Mwy o fanylion gan CND Cymru - gweler Cysylltiadau

**Mawrth 19eg Gwersyll 'clustfeinio'yr UD Menwith Hill, Swydd Efrog, Lloegr GWARCHAE AR Y GWERSYLL**
- Gwarchae di-drais a gwrthdystiad ger Gwersyll yr UD Menwith Hill, ger Harrogate. Manylion: Yorkshire Campaign for Nuclear Disarmament, 22 Edmund Street, Bradford, BD5 0BH ffôn: (01274) 730 795 ebost: info@yorkshirecnd.org.uk y we: www.yorkshirecnd.org.uk neu www.blockthebase.org.uk

**Mawrth 20fed Aberystwyth Gweithred Genedlaethol dros Heddwch, i gefnogi'r 'Diwrnod Byd-Eang o Weithredu dros Heddwch' Diwrnod o ddigwyddiadau gyda Rali, siaradwyr a symposiwm yn canolbwyntio ar Heddwch, Hawliau Dynol a Chyfraith Ryngwladol. BYDDWCH YNO! Manylion: CND Cymru.** (tud 3)

**Ebrill 8fed 6pm Y Deml Heddwch, Caerdydd 'The European Court of Human Rights' (ECHR) - Seminar Materion Cyfreithiol** i ystyried diwygiadau 1998 a'u canlyniadau o safbwynt dwyn achos ger bron y Llys Ewropeaidd: centre@wcia.org.uk, (029 20) 228 549

**Ebrill 9fed - 12fed Gorymdaith Llundain i Aldermaston!!**

**Ebrill 9fed** - Rali yn Sgwâr Trafalgar i hebrwng y cerddwyr ar eu taith gerdded dridiau. Na, nid hiraeth am y 50au a't 60au . . . ond protest i'r dydd heddiw ynglwn â chynlluniau i ddatblygu arfau dinistr torfol niwclear newydd yn y SAA Aldermaston, Berkshire, Lloegr lle mae ergydion niwclear Trident yn cael eu hailwampio.

**Ebrill 12fed: Gweithdred Ddi-drais yn Aldermaston.**
Byddwch yno! Anogir grwpiau lleol i fynd â llond bws o ymgyrchwyr o Gymru i Aldermaston. Rhowch wybod i CND Cymru os ydych chi am fynd neu os penderfynwch drefnu bws! Cysyllter â: www.aldermaston2004.net Aldermaston2004 d/o AWPC, 18 Greenway Road, Bryste BS6 6SG. Ffôn: 07880 941 849 neu: info@aldermaston2004.net neu CND Cymru (gweler cysylltiadau).

**Ebrill 22ain**
Mordechai Vanunu i gael ei ryddhau o'r carchar yn Israel. Digwyddiadau yn Israel a Phrydain
(stori tud. 15.)

**Ebrill 26ain**
Dydd Chernobyl (stori tud.17)

**Diwedd Mai Rhifyn Haf Cynnar 'heddwch' yn ymddangos - danfonwch syniadau, deunydd a dyddiadau dyddiadur at y Golygydd erbyn canol Ebrill!**

**31ain Mai - 5ed Mehefin Eisteddfod yr Urdd** Maes Sioe Amaethyddol Ynys Môn, Llangefni. Angen help siaradwyr Cymraeg a dysgwyr ym Mhabell Heddwch. Cysyllter ag Awel Irene: (01766) 772 902 ebost: awel.irene@virgin.net

## cysylltiadau cnd cymru

**cadeirydd:**
Jill Evans MEP
(01824)709 700

**is-gaderyddion**
Rod Stallard
(01550) 750 260
David Bradley(gogledd cymru)
(01824)709 700
Olwen Davies (y canolbarth)
(01970) 611 994
Ray Davies (de cymru)
(029 20) 889 514

**aelodaeth &aelodau cysylltiol:**
Brian Jones,
(01792) 830 330

**masnachu**
Jan Henderson
(01792)830 330

**trysorydd:**
Jean Bryant,
16,Clôs
Ty'n y Cymer,
Porth,Y Rhondda CF39 9DE

**golygydd heddwch ac ysgrifenydd cyffredinol:**
Jill Stallard,
Nantgaredig,Cynghordy,
Llanymddyfri SA20 0LR
(01550) 750 260
heddwch@cndcymru.org

**Mwy o wybodaeth, syniadau neu gymorth i'w gynnig? Cysylltwch â'ch is-gadeirydd CND Cymru agosaf da chi, neu'r ysgrifennydd cyffredinol.**

## cysylltiadau lobïo

**Tony Blair A.S.**, 10, Downing Street, Westminster Llundain SW1A 2AA

**Geoff Hoon A.S.**, Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn, MoD, Maoin Building,Llundain SW1A 2HB

**Jack Straw A.S.**,Ysgrifennydd Gwladol dros faterion Tramor a'r Gymanwlad, Y Swyddfa Drammor a Chymanwlad, Whitehall, Llundain SW1A 2AH

**Eich A.S.**,Ty'r Cyffredin, Westminster, Llundain SW1 0AA ebost via: http://www.locata.co.uk/commons

**Eich A.S.E.**, Y Senedd Ewriopaidd, Wiertz-Straat, B-1047 Brwsel

**Aelodau'r Cynulliad:** Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ty Crucywel, Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA ebost: ee: dafydd.wigley@wales.gov.ukfor neu: http://www.wales.gov.uk/

## Deddf Diogelu Data 1998 Polisi CND Cymru

Rydym yn gwerthu eich cefnogaeth a'r ffaith eich bod yn aelod o CND Cymru - Ymgyrch Cymru dros Ddiarfogi Niwclear. Mae'n rhaid i CND Cymru gadw data amdanoch, er mwyn gallu dal i'ch hysbysu ynglwn â datblygaidau yn yr ymgyrch. O dan y Ddeddf Diogelu Data rhaid i CND Cymru eich hysbysu o'r wybodaeth sydd gennym ar ffeil a sut y gallem ei defnyddio. Ni fydd y polisi'n newid y modd y mae CND Cymru'n gweithredu.

Mae CND Cymru yn cadw gwybodaeth fel enw, cyfeiriad ac, mewn rhai achosion, cyfeiriadau ebost a manylion banc, ac ati ynglwn â'n cefnogwyr er mwyn i ni allu gweithredu fel mudiad ymgyrchu. Bydd gwybodaeth o'r fath yn cael ei defnyddio i ddibenion CND Cymru yn unig, a all gynnwys postio gwybodaeth CND Cymru at aelodau, gweinyddu'r aelodaeth a darparu gwybodaeth ynglwn â digwyddiadau a chodi arian, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny. Byddwn yn ceisio sicrhau fod y wybodaeth mor gywir ag sy'n bosibl a'i diweddaru, a gofynnwn am eich cymorth yn hyn o beth. Byddwn yn gwneud popeth a allwn i sicrhau na chaiff y wybodaeth hon ei defnyddio mewn unrhyw fodd anawdurdodedig neu anghyfreithlon.

Ni fyddwn yn gwerthu neu roi gwybodaeth amdanoch i unrhyw unigolyn neu fudiad ac eithrio:

- swyddogion CND Cymru sydd ag arnynt angen y wybodaeth i allu cyflawni eu swyddogaeth (e.e. gweinyddu'r aelodaeth, postio allan, ac ati)
- grwpiau CND lleol sydd am gysylltu â chefnogwyr yn eu cylch;
- unrhyw unigolyn neu fudiad mae CND Cymru wedi eu cyflogi ar gyfer projectau penodol dan adain CND Cymru;
- mudiadau sy'n rhannu ein nodau ac sydd â threfniant ffurfiol gydag CND Cymru.

Pe bai CND Cymru yn digwydd dod i ben fel mudiad, byddai'r holl wybodaeth aelodaeth yn cael ei throsglwyddo i CND Prydeinig, 162 Holloway Road, Llundain N7 8DQ.

O dan delerau Deddf Diogelu Data 1998 mae gennych hawl i wahardd defnyddio eich data i unrhyw un o'r dibenion uchod. Dylid danfon unrhyw wrthwynebiadau o'r fath mewn llythyr i'r cyfeiriad isod. Yn benodol, mae gennych hawl i hysbysu CND Cymru os nad ydych yn dymuno:

- derbyn apeliadau am arian gan CND Cymru;
- i'ch gwybodaeth gael ei danfon at yr unigolion neu'r mudiadau a ddisgrifir uchod;
- derbyn unrhyw wybodaeth bellach gan CND Cymru.

Os ydych yn teimlo ein bod yn defnyddio unrhyw wybodaeth amdanoch mewn modd a allai, yn eich barn chi, beri niwed neu ofid i chi neu i berson arall, da chi, cysylltwch â ni ar unwaith yn y cyfeiriad isod i sicrhau na fydd eich cofnodion yn cael eu defnyddio yn y ffordd hon mwyach.

Mae gennych hefyd hawl i weld copi o'r wybodaeth sydd gennym amdanoch. Fe ddarparwn, yn rhad ac am ddim, yr holl wybodaeth sydd gennym amdanoch os derbyniwn gais ysgrifenedig gennych.

Os hoffech gael gwybod mwy am sut rydym yn ufuddhau i'r Ddeddf Diogelu Data, os nad ydych am i'ch gwybodaeth gael ei defnyddio mewn ffyrdd neilltuol, neu os hoffech gopi o'r wybodaeth sydd gennym amdanoch, sgrifennwch at:

Diogelu Data, Aelodaeth CND Cymru, 72 Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe SA8 3AN